



RHAGOROL Ysgol Dolbadarn

Yng nghystadleuaeth “Carol yr Ŵyl” ar raglen Prynhawn Da ar S4C yn ystod yr wythnosau yn arwain at y Nadolig, dyfarnwyd côr disgyblion yr ysgol yn fuddugol drwy Gymru.

Ond bu achos hefyd i ganu clod yr ysgol am lwyddiant arall yn yr un cyfnod. Mewn arolwg diweddar gan Estyn, y corff sy’n arolygu

ysgolion, cafwyd cadarnhad fod Ysgol Dolbadarn wedi derbyn y radd uchaf posib, sef RHAGOROL, a hynny ym mhob un o’r pump maes arolygu. Mae hon yn gamp arbennig iawn, ac yn un o’r ychydig ysgolion cynradd yng Nghymru i sicrhau’r safon uchaf posib hwn yn ystod y llynedd. (gweler adroddiad ar dudalen 18.)

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

RHIF 473

Chwefror 2019

Argraffwyd gan

Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i

Dafydd Whiteside Thomas

Bron y Nant, Llanrug

01286 673515

ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn
Chwefror

Copi i law
Sul 20 Ionawr

Bwn delu

Gwener 1 Chwefror

Ble

Llanrug

Mawrth

Sul 17 Chwefror

Gwener 1 Mawrth

Llanrug

Ebrill

Sul 17 Mawrth

Gwener 29 Mawrth

Llanrug

Mai

Sul 21 Ebrill

Gwener 3 Mai

Llanrug

LLYTHYRAU

Cefnogi'r Lasynys Fawr

Rhedir y Lasynys Fawr gan Cyfeillion Ellis Wynne, a chynhelir teithiau tywys hynod ddifyr ac addysgiadol i grwpiau waeth pa mor fawr neu fach, a chynigir paned a rhywbeth melys yn y Tŷ Popty, sef hen fecws o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'i adnewyddu ar y safle; profiad pleserus ynghanol un o ardaloedd godidocaf Ardudwy. Mae Cyfeillion Ellis Wynne yn estyn gwahoddiad i drigolion Cymru ben baladr a thu hwnt draw i'r Lasynys ac i ymuno fel aelod o'r elusen. Gall cynyddu nifer yr aelodau arwain at ddatblygiadau pellach ar y safle, megis arlwy addysgiadol gydol oes – nad yw'n cyrraedd ei lawn botensial ar hyn o bryd.

Am ymaelodi, rhennir gwybodaeth gyda'r aelodau am yr holl achlysuron a drefnir gan y Cyfeillion yn ystod y flwyddyn, a llyfryn gwybodaeth am y tŷ yn ogystal. Pe dymuna'r darlennydd ymaelodi, dylid cysylltu â tudur.colwyn@tiscali.co.uk, sef trysorydd y Cyfeillion. Edrychwn ymlaen at eich croesawu acw.

Lleoliad Newydd ar gyfer Cyfarfodydd a Digwyddiadau

Annwyl ddarlennwyr,

Gwahoddir chi yma i Swyddfa Ambiwylans Awyr Cymru ym Maes Awyr Dinas Dinlle ar Ddydd Mercher, Chwefror 20fed, rhwng 10yb – 12yp neu 1yp – 3yp. Bydd cyfle i chi weld y lleoliad, Ystafell Gynhadledd Menai, dewisiadau bwffe, parcio, cyfleusterau i'r anabl gyda'r gobaith y gwelwch yn addas ar eich cyfer.

Mae Ambiwylans Awyr Cymru yn darparu Gwasanaeth pedair hofrennydd ledled Cymru. Rydym angen codi lleiafswm o £6.5 miliwn bob blwyddyn i alluogi parhau i hedfan yr Ambiwylans Awyr yng Nghymru. Does dim nawdd ar gael i'r elusen o du'r Llywodraeth na chwaith y Loteri Cenedlaethol felly heb gefnogaeth fel chwi, ni fyddai'n bosib ariannu'r gwasanaeth hanfodol yma i Gymru.

Edrychwn ymlaen i'ch cyfarfod ond gan fod y nifer yn gyfyngedig gofynnwn i chwi gadarnhau eich presenoldeb drwy ffonio 01286 875050 erbyn Chwefror 15fed os gwelwch yn dda.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Daeth criw da ynghyd i Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar gyfer cyfarfod cyntaf 2019. Ein gŵr gwadd oedd Yr Athro Jerry Hunter ac fe'i croesawyd i'n plith gan Geraint Jones.

Y pwnc dan sylw oedd Y Cymry a Rhyfel Cartref America. Eglurodd Yr Athro fod dros 45 mil o Gymry Cymraeg eu hiaith yn byw yn y wlad yn 1860. Roedd y mwyafrif o ddigon o'r rhain yn erbyn Caethwasanaeth ac yn fwy na bodlon ymuno yn y frwydr i ryddhau y caethweision. Roedd Gwasg Gymreig America yn ffynnu ac yn gwbl allweddol yn ystod y cyfnod hwn. Dyfynnwyd allan o sawl Cylchgrawn, llythyr a barddoniaeth hyd yn oed. Roedd yr iaith yn safonol a'r disgrifiadau o'r brwydrau yn gignioeth a gonest.

Cawsom noson i'w chofio a diolchwyd yn gynnes iawn i'r Athro ar y diwedd.

Chwefror 19eg yn yr un man a'r un amser byddwn yn croesawu William H. Owen a'i bwnc fydd "Y CYMRO, ddoe a heddiw a'i ddylanwad ar blant i ysgrifennu". Dowch draw, mae'n argoeli i fod yn noson arall ddifyr.

Pris yr "Eco" yn codi

Yn dilyn argymhelliad o'r Cyfarfod Blyneddol, cyfarfu pwyllgor llywio'r "Eco" yn gynharch yn Ionawr, a phenderfynwyd codi'r pris i £1 y rhifyn, a hynny o fis Ebrill eleni. Y tal am flwyddyn ymlaen llaw fydd £10, (sy'n cynnwys un rhifyn am ddim). Dyma'r codiad pris cyntaf ers pedair blynedd, ac yn anffodus mae'n adlewyrchu'r costau cynyddol sy'n wynebu pawb y dyddiau hyn.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb sy'n cefnogi'r "Eco", a chredwn fod 32 o dudalennau yn llawn newyddion, hanesion ac erthyglau yn parhau'n fargen.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£30: Er cof am Merfyn Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug gan Rhiannon, David, Eirian, Eleri a Gareth.

£25: Menna Williams, Fferm Minffordd, Llanrug.

£20: Haf Williams, Ty'n y Coed, Llanrug; Heulwen Parry, 57 Glanffynnon, Llanrug; Er cof am Sion Rhys Jones, Penrhos, Waunfawr gan Elis, Ioan a Beca.

£10: Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethe; l Er cof am Betty Roberts, Rhydfadog, Deiniolen;

£5: Elizabeth Jones, Balaclava, Llanberis

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ennill ‘Gwobr y Bobl’

Efallai bydd rhai ohonoch wedi clywed am “Gwobr y Bobl” sef gwobr i aelod o staff neu dim Cyngor Gwynedd sydd wedi mynd y filltir ychwanegol i ddarparu gwasanaeth o safon. Efallai eich bod wedi derbyn gwasanaeth da iawn dros nifer o flynyddoedd neu achos ble mae staff wedi mynd allan o’i ffordd i’ch helpu. Os ydych am ddatgan eich gwerthfawrogiad dylech gysylltu a Cyngor Gwynedd ac enwebu’r tim neu aelod o staff.

Y llynedd fe ennillodd un o ddarllenwyr yr Eco’r wobr, sef Sara Morris Jones o Llanrug. Fe enillodd Sara “Gwobr y Bobl 2018” am ei hymdrech i sicrhau fod pobl lleol Gwynedd, yn enwedig y rhai gydag anabledd neu deuluoedd ar incwm isel yn cael y cymorth ariannol cywir.

Cafodd Sara ei chyflwyno gyda tlws a thystysgrif mewn seremoni y ‘Cyngor ar ei Orau’



Nid apêl y tro hwn....

Fis ar ôl mis ar ôl mis hyd at syrffed mae eitemau, newyddion a lluniau yn cyrraedd yn hwyr. Mae hyn yn creu problemau dybryd i’r Golygydd, oherwydd mae’n ceisio ei orau i gynnwys deunydd sy’n gyfredol, ond heb lwyddo bob amser – ac yna daw’r cwynion! Mae’n creu problemau hefyd i Gwyndaf Hughes sy’n trin y lluniau: rhaid iddo oleuo pob llun a pharatoi fersiwn lliw a du/gwyn o bob llun. Mae’r holl waith trin lluniau yn cymryd amser cyn iddo eu trosglwyddo i’r golygydd.

O dderbyn popeth cyn neu ar y dyddiad cau (nos Sul fel arfer), mae’n rhoi tri diwrnod i baratoi ar gyfer rhoi’r papur at ei gilydd cyn ei drosglwyddo i’w osod a’i ddylunio. Wedi i hynny ddigwydd rhaid i’r golygydd edrych drosto eto i wneud yn siwr ei fod yn gywir i’w anfon i’r Wasg. Mae’r holl broses yn ymestyn o Sul i Sul, ac yn cymryd amser – amser gwirfoddolwyr.

Mae sawl apêl wedi ei gwneud i gadw at y dyddiad cau. Does dim pwrpas apelio bellach. Mae posiblirwydd y bydd eitemau hwyr yn cael eu gadael allan o’r papur. Ond wedi dweud hynny, mae’n fwy na thebyg na fydd y ‘troseddwy’ yn trafferthu darllen hyn o lith, ond yn parhau i gwyno os bydd eu newyddion wedi eu hepgor o’r rhifyn nesaf.

Alexa Cymraeg yn y Dyfodol?

Mae Mozilla yn hel recordiadau o bobl yn siarad Cymraeg er mwyn creu data bas ar gyfer creu lleisiau a deall rhywun yn siarad. O fod yn llwyddiannus, fe allwn siarad a chael atebion Cymraeg gan beiriannau fel Alexa.

Yr oll sydd ei angen ydi i ni fewngofnodi i <https://voice.mozilla.org/cy> ac yna adrodd 5 brawddeg fydd yn ymddangos ar y sgrin. Rhyw 2 funud ar y mwyaf.

Mae’n hynod bwysig fod y Gymraeg i’w chael yn y dechnoleg yma. Mae’r dechnoleg yn gorfodi ein plant i siarad Saesneg heb feddwl ddwywaith ar hyn o bryd.

Dim ond darllen 5 llinell hogia ac os da ch’n baglu mae’n hawdd ail recordio’r frawddeg. Ewch ati i roi’n iaith yn y ganrif hon.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Cynhaliwyd y cyfarfod olaf yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug ar Sul olaf 2018. Mae’r gynulleidfa bellach yn cynnal eu gwasanaethau yn Y Sefydliad Coffa.
- Torrwyd y dywarchen gyntaf i ddangos cychwyn Ffordd Osgoi Bontnewydd a Chaernarfon. Disgwylir i’r gwaith gael ei gwblhau o fewn dwy flynedd, a bydd cryn swm o dywyrch wedi eu torri erbyn hynny!
- Daeth y newyddion fod Cwmni Hitachi wedi atal gwaith ar Wylfa Newydd, ond gyda’r opsiwn o barhau efo’r gwaith pe gellir dod i gytundeb ariannol gyda llywodraethau Prydain a Japan. Mae tua 200 o weithwyr ar y prosiect ar hyn o bryd, ond yn debygol o wynebu diswyddiadau. Y gobaith gwreiddiol oedd y byddai tua 9,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi yn ystod y gwaith adeiladu a thua mil o swyddi hir-dymor wedi hynny. Colled economaidd enfawr i ogledd-orllewin Cymru yn ol un garfan, ond carfan y rhai sy’n gwrthwynebu ynni niwcliar yn hynod falch.

- Problemau gweithredu ar ‘Bleidlais y Bobl’ yn 2016 yn parhau, a’r holl gecru wedi troi’n ffars hynod ddigri ar brydiau – oni bai am ddifrifoldeb y sefyllfa. Ac yr un mor anffodus, mae’r gemau gwleidyddol yn parhau. Cysidwrch y ffaith fod dros gant o aelodau seneddol Toriaidd wedi pleidleisio i gael gwared a Mrs May fel arweinydd eu plaid ym mis Rhagfyr. A phan gollodd y llywodraeth y bleidlais ar gytundeb ‘brecsit’ Mrs May o’r mwyafrif mwyaf yn hanes gwleidyddiaeth Prydain, roedd nifer helaeth o aelodau Toriaidd wedi pleidleisio yn erbyn eu llywodraeth eu hunain. Ond ddiwrnod yn ddiweddarach, yn dilyn rhybudd o ddiffyg hyder yn y llywodraeth gan y Blaid Lafur, pleidleisiodd yr holl aelodau Toriaidd o blaid eu harweinydd! Ac erbyn i chi dderbyn hyn o sylwadau mae’n fwy na phosib y bydd newidiadau eraill wedi digwydd hefyd...

Ysgol Bethel



Pel-rwyd

Aeth tim o enethod i Neuadd Brailsford i gystadlu yn y gystadleuaeth pel - rwyd. Llwyddodd y genethod i gydweithio'n wych a chwarae'n ardderchog. Llwyddodd y tim i ddod yn drydydd yn eu grwp a methu allan o fynd drwodd i'r rownd gyn-derfynol.



Oriel Môn

Aeth disgyblion blwyddyn 3, 4 a 5 i Oriel Môn er mwyn cael blas ar fywyd y Celtiaid ar gychwyn ein thema. Cawson ddiwrnod gwych yn edrych ar arteffactau o'r Oes Haearn. Gwnaeth pawb fwynhau'n fawr iawn.

DYN Y BAND TARO



Os ydych fel fi yn ddilynwr brwd o raglen Aled Hughes ar Radio Cymru yna rydych yn ymwybodol o'r prosiect diweddaraf. Y bwriad yw creu band taro cenedlaethol yn cynnwys ysgolion, grwpiau, unigolion... Mae'r amser yn benodol a'r gân I'r band taro ei chwarae hefyd yn benodol. Y syniad yw cael recordiad o un o ganeuon traddodiadol y byd rygbi sef Sosban Fach yn barod ar gyfer gêm gyntaf Cymru yng nghystadleuaeth y Chwe Gwlad draw ym Mharis. (Bydd y gêm wedi bod erbyn i chwi ddarllen hyn o eiriau, a byddwch wedi clywed y band.) Band unofferyn a geir oherwydd yn naturiol band taro SOSBAN – o bob maint, gyda a heb gaead arno. Bydd y gwahanol gynigion yn cael eu golygu a'u plethu i un cyfanwaith. Rhoddwyd y dasg o olygu a phlethu y cyfraniadau i gerddor dawnus iawn sydd yn un o ymchwilwyr y rhaglen. Neb llai nag ein Gethin Griffiths ni. Efallai i chwi glywed Gethin yn trafod gyda Aled un bore holl ystod a phwysigrwydd rythmau mewn cerddoriaeth. Gyda llaw, rhaid cyfeirio at ymgyrch rhaglen Aled I gyflwyno y Pawen Llawen, ein cyfarchiad Cymreig taro dwylo I ddangos cyfeillgarwch. Ewch I unrhyw ysgol gynradd ac fe welwch bod y syniad wedi taro. Beth nesaf Geth?

MERCHED Y WAWR

Croesawyd pawb I gyfarfod Ionawr gan ein Llywydd, Gwenan Roberts. Cydymdeimlodd â Gwyneth Jones, Caerhun ac Eva Thomas yn eu profedigaeth o golli aelod o'r teulu. Ein gwraig wadd oedd yr optegydd Gwen Davies, a roddodd anerchiad ar Iechyd y Llygaid. Roedd Gwen wedi cyfieithu i'r Gymraeg gyflwyniad benodol gan Gymdeithas Optegwyr Prydain. Amlinellodd y cyflyrau all effeithio ar iechyd y llygaid ac achosi gwahanol lefelau o ddallineb. Nododd y gwahanol driniaethau sydd ar gael i wella'r diffygion, yn ogystal ag ychydig gynghorion all pob un ohonom ddilyn i amddiffyn ein golwg.

Yn ogystal â'i gwaith fel Optegydd yng Nghaernarfon a Chaerdybi, mae Gwen hefyd yn brysur gyda'r elusen Vision Aid. Mae'r elusen yma yn gweithio yn bennaf ar gyfandir Affrica yn ceisio lleddfu problemau llygaid y trigolion na all fforddio triniaethau na hyd yn oed bâr o sbectol. Bydd Gwen yn cystadlu ym Marathon Llundain ym mis Mai gan geisio denu nawdd ar gyfer elusen Vision Aid. Dymunwn yn dda iddi.

Diolchwyd i Gwen ar ran y gangen gan Gwyneth Jones, Fachell. Mair Read oedd yn gyfrifol am y baned, ac ennillwyd y raffl gan Eleri Warrington. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 13eg pryd cawn rannu profiadau Morfudd Thomas ar ei thaith yn crwydro gwlad fynyddig Nepal. Fe gynhelir ein cinio Gŵyl Ddewi eleni yn y Pant Du, a gofynnir i'r aelodau ddychwelyd eu dewis prydau – a'r tâl – i gyfarfod Chwefror.

DATHLIADAU'R NADOLIG

Dechreuwyd gyda gwasanaeth Nadolig y Plant yn y Cysegr. Gwnaeth y plant eu gwaith â graen, a diolch i'r athrawon am eu cefnogaeth. Wedi'r gwasanaeth caed parti Nadolig plant yr ysgol Sul yn y Ffestri cyn teithio i ganolfan Pontio i wyllo ffilm. Mae'r Ysgol Sul wedi ail-gychwyn bellach ac mae croeso i unrhyw blentyn ymuno a'r dosbarthiadau am 10a.m. yn y capel.

Roedd y Neuadd Goffa yn llawn ar gyfer y Noson Garolau Gymdeithasol dan arweiniad y Parch. Marcus Robinson. Diolch i Hefin ac aelodau Band Ieuencid Bethel am gyfeilio drwy'r noson. Diolch hefyd i'r sawl fu'n darparu lluniaeth ysgafn i'r mynychwyr. Mae'r noson hon – sy'n denu trawsdoriad oedran – wedi hen ennill ei phlwy bellach.

Caed gryn ganmoliaeth am berfformiad ardderchog plant yr Ysgol

Gynradd am eu dehongliad o'r Llew Frenin . Roedd neuadd Ysgol Brynrefail dan ei sang. Diolch i'r tîm ardderchog o athrawon â gydweithiodd i roddi profiad arall mor werthfawr i'r disgyblion. Fe ffilmwyd y cynhyrchiad ar y noson, a gellir prynnu DVD o'r sioe o'r ysgol am £4. Bargen yn sicr, a chofnod ym marn llawer o un o uchelfannau perfformiadol ers sawl blwyddyn. Da iawn blant.

Roedd 80+ yn Cymuno yng nghwasanaeth undebol bore'r Nadolig yn y Cysegr dan arweiniad y gweinidog. Unwaith eto roedd Hefin ac aelodau cerddorol hyn y pentref yn rhoddi cyfeiliant cadarn i'r canu. Rwy'n siwr fod nodau Adeste Fideles wrth gloi'r gwasanaeth i'w clywed hyd y pentref. Bydd nifer yn cofio anerchiad Nadoligaidd y gweinidog gan ddefnyddio y ddelwedd o Bwdin 'Dolig i son am sylfaen ysbrydol yr Ŵyl. Dipyn o dân go iawn, neu fel y dywedodd y gweinidog 'flambe'!

O’R CYNGOR CYMUNED

Yng nghyfarfod Ionawr gosodwyd presept o £31, 800 ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn golygu taliad o £17.31 i berchenog tŷ band D. Mae hyn yn godiad o £5 ar y llynedd. (Gwelir hefyd erthygl esboniadol dan benawd Presept Cyngor Llanddeiniolen mewn rhan arall o’r rhifyn hwn.)

Yn y rhifyn diwethaf rhoddais adroddiad cynhwysfawr ar ddatblygiad y tai rent dan ofal Grŵp Cynefin. Nodais hefyd y gwahanol delerau â osodir ar ymgeiswyr am y tai. Os ydych am wneud cais, neu yn gwybod am rywun sy’n dymuno gwneud, yna mae gennyf stoc o ffurflenni cais. Gallwch alw acw i nŵl un. Fe fydd unrhyw wybodaeth am ymgeiswyr yn hollol gyfrinachol.

Cawsom wybod yn y cyngor fod y Cyngor Sir bellach yn ‘graddio’ y gwahanol dyllau sy’n ymddangos fwy-fwy ar ein ffyrdd. Mae hyn yn broblem gynyddol ar sawl un o ffyrdd y pentref yn enwedig o’r Post i lawr tua’r Neuadd. Mae’n ymddangos mai dim ond y tyllau ‘gradd ddwysaf’ fydd yn cael sylw. Fe anwybyddir y gweddill. Gobeithio na fydd raid i ni ‘weld Awstralia’ trwy’r tyllau cyn i’n ffyrdd gael sylw!

Diolch.

Dymuna teulu y diweddar Merfyn Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Gyda diolch hefyd i’r parchedigion Gwynfor Williams, R.E. Hughes a Marcus Robinson am eu gwasanaeth, ac i Gwynfor Jones o gwmni E.W.Pritchard am ei drefniadau trylwyr ddiwrnod yr angladd. Rhannwyd cyfraniadau er cof rhwng Meddygfa Waunfawr a’r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru

CLWB BRO BETHEL

Bydd y clwb yn ail gyfarfod ar Chwefror 5ed yn Festri’r Cysegr am 2pm. Rwyn siwr y cawn ddechrau campus i’r flwyddyn gan mai ein siaradwr gwadd yw’r hanesydd poblogaidd Bob Morris o Benygroes. Mae croeso i rai nad ydynt aelodau i ymuno â ni. Gan fod Mawrth 1af yn disgyn yn ystod cyfnod hanner tymor eleni, bydd dyddiad ein gwahoddiad i ddathlu gyda disgyblion Ysgol Bethel yn cael ei gyhoeddi yng nghyfarfod Chwefror.

GRŴP ‘ADNODDAU I’R PENTREF’

Erbyn hyn mae aelodau’r grŵp wedi paratoi yr holiadur a diolch i wirfoddolwyr am gynorthwyo i rannu yr holiadur. Gobeithir bydd yr ymateb yn rhoddi darlun clir o beth yw blaenoriaethau y trigolion. Bydd yr atebion yn cael eu hasesu, ac ar sail yr ymateb y gwneir penderfyniad ar y cam nesaf ymlaen. Gallai hyn arwain at wneud cais penodol am grant I gynnal y cais. Os yw’r dadansoddiad wedi ei gwblhau, gofynnaf am ganiatad y grŵp i roddi adroddiad cynhwysfawr ar yr ymatebion yn rhifyn Chwefror.

PREGETHWYR MIS CHWEFROR

CYSEGR (10am): 3/2: Nerys Griffith 10/2 : Gweinidog 17/2 : Richard Morris Jones 24/2 : Gweinidog

BETHEL (10am) : 3/2 Dafydd Iwan 10/2 Glyn Owen 17/2 Gwynfor Williams (Cymun) 24/2 Nerys Griffiths

SARON (2pm) :3/2 Cath Williams 10/2 Huw Tegid Roberts 17/2 islwyn Hughes 24/2 Parch. Richard Guilliot (cymun)

Croeso I bawb ymuno yn yr oedfaon.

CYFARCHION

Do, fe ddaeth yr alwad ffôn o Lanharan gan Glenys a Siencyn yn gofyn i mi gyflwyno eu dymuniad o Flwyddyn Newydd Dda i bentrefwyr Bethel drwy golofnau’r Eco. Maent yn derbyn yr Eco yn Llanharan, a dymunwn ni yr un cyfarchiad iddynt hwy.

CWESTIWN???

Pam mae un o weithwyr Openreach yn y ‘bocs’ ger Llys Myfyr yn archwilio bron iawn pob dydd o’r wythnos? Ai arwydd fod yna broblem seriws gyda chyflenwad y pentref neu bod y gwaith adferol ddim i fyny i’r gofynion. Rhoi ‘plastar’ yn lle triniaeth fel petai. Clywais am ambell un wedi gorfod prynnu I-pad i geisio gwella eu derbyniad o e-byst. Ydy hyn yn deg a hwythau yn talu am wasanaeth gyda BT yn barod. Dim ond gofyn ...

CYDYMDEIMLAD

Daeth y newyddion am farwolaeth Evan Owen, Wern Las gynt neu fel roeddem yn ei gofio ‘gŵr Nerys’. Cymeriad, ac os bu cwpwl erioed wel dyna oedd Evan a Nerys. Roedd ymweliad a’u cartref i’w drysori gan byddai straeon ers talwm yn cymysgu’n braf gyda’r baned – a’r mŵg sigaret. Mae ein cydymdeimlad gyda Sulwen, Irfon a’r plant.

Yr un modd ein cydymdeimlad i Anita Owen, Dryslwyn, a’r teulu ar y brofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar.

Cronfa Cynnal a Chadw Mynwent Eglwys St Deiniol, Llanddeiniolen 2018

Diolch i'r isod am eu cyfraniad tuag at gostau cynnal y fynwent am 2018. Byddwn yn cydnabod pob cyfraniad.

£10: Mr a Mrs Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Bethel; £15: Mr a Mrs J.M. Griffith, Llwyn Eithin, Bethel; £100: Mr Wyn Hughes, Cringae, Deiniolen; £100: Mrs C.A. Lowe, Epworth; £100: Mr a Mrs Emyr Parry, Drws Nant, Groeslon; £20: Mrs Dilys Parry, 1 Bryn Tirion, Rhiwlas; £460:Dienw; £40: Mrs Alice Jones, 15 Bro Rhos,Bethel;£10: Mr Robert Pritchard,30 Bro Rhos,Bethel;£448: Rhodd gan Gapel Bethel a oedd yn rhoddion wedi eu buddsoddi er cof am y canlynol: MrsGwladys Griffith, Bryn Alun; Mr Emrys Jones, Glyn Trefor a Mrs A,E,Williams, Tŷ Newydd.

£10: Mr D.G. Jones, 25 St Catherine's Drive, Hen Golwyn; £400: Er cof am Priscilla Williams, Wylfa, Gallt y Foel, Deiniolen; £75: Gwynedd a Sue Hughes, Coed Bolyn Lodge; £100: Di-enw; £10: Ann Ellis, Y Ddolwen Fach, Bethel; £10: Ieuan Ellis Jones, Caernarfon; £20: Mrs Ivy Wright, 3 Tan y Buarth, Bethel; £40: Mr Dennis Ellis, 54 Maes Padarn, Llanberis; £50: Mrs Myra Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun; £20: Mr G. Richards, 5 Tai Caradog, Deiniolen; £20: Mrs Eurgain Jones, Y Rhos, Bethel; £50: Mr I. Thomas a'r teulu, Buarthau, Llanrug; £150: Mr Gareth Jones a Dylan Edwards, 3 Bro Deiniol, Deiniolen; £10: Mrs M. Roberts, Tŷ Newydd, Bethel; £25: Mrs Elsbeth Edwards, Llandaf; £10: Mrs Megan Humphries, Is Helen, Bethel; £50: Mr a Mrs Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; £20: Mr a Mrs Clifford Thomas, 68 Stryd Bangor, Y Felinheli; £20: Mr a Mrs Huw Hughes, 11 Stad Eryri, Bethel; £100: Di-enw.

£10: Mrs Eirian Jones, 11 Stryd Newydd, Deiniolen; £5: Mr a Mrs O.P. Hughes, 13 Council Houses, Llanbedrgoch; £20: Mrs Phillis Jones, 59 Bryn Marl, Cyffordd Llandudno; £20: Mrs Ann Hughes, Y Bwthyn, Llanrug; £175: Mrs Jennifer Roberts, Llys Menai, Bethel; £25: Mr a Mrs Elwyn Jones, Llys Gwynt, Llanddeiniolen; £50: Mrs Lowri P. Roberts, Godre'r Coed, Brynrefail; £10: Mrs Valerie Owen, 10 Rhoslan, Bethel.

DEINIOLLEN

Mrs Nia Gruffudd.
Ffôn: (872133)



Nadolig yn Eglwys Crist Dechreuodd y dathlu ar Sul, 16eg Rhagfyr, pan gafwyd gwasanaeth ardderchog o Garolau a Darlenniadau gyda chynulleidfa deilwng o bob oed ac roedd yr awyrgylch yn hyfryd. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Canon Idris Thomas gydag Eleri Bean wrth yr organ. Goleuwyd Canhwylau'r Adfent gan Gruffudd Sion, Efa Jen, William a Hedd Holland. Cymerwyd rhannau yn y gwasanaeth gan Brian Price, Ffion Jones, Colin Worth, Emma Chappell, Len Jones, Rosina Worth, Elin Worth, Ceinwen Jones, Deion a Guto Jones ac Efa Jen. Cafwyd deuawd gan Ioan a Dafydd Bean. Derbyniodd y plant anrheg Nadolig. Yn casglu roedd Len Jones a Celt Williams. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n hyfryd a chafodd pawb ar y diwedd gyfle i edrych ar y cyfan. Diolchir i Gwen Griffith, Eileen Hughes a Rhianwen Jones am eu gwaith gyda'r Ysgol Sul.

Daeth criw da ynghyd i'r gwasanaeth ar Noswyl Nadolig dan arweiniad y Canon Idris Thomas a Dr. William Munro wrth yr organ ac yn cynorthwyo gyda'r Cwpan Cymun. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Brian Price a Ceinwen Jones.

Dymuna Buddug, Rhianwen a theulu'r ddiweddar Beti Roberts, 25 Rhydfadog, diolch i'w ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad dwys a ddangoswyd iddynt ar golli ffrind agos iawn, a chyfnither annwyl, hefyd diolchwn am y rhoddion hael sydd wedi eu rhannu i elusennau Deiniolen.

Gwasanaeth Nadolig - Pobl Ifanc Cynhaliwyd cyfarfod cyn y Nadolig yng ngofal pobl ifanc yr Eglwys a cafwyd gwasanaeth hynod fendithiol ganddynt oll. Diolch yn fawr iddynt am fod mor barod fel bob tro i roi eu hamser a chymeryd rhan, diolch Glain, Ella, Elin Dafydd, Alis, Jac, Tryfan, Beca, Gwion. Diolch hefyd i Catrin Llewelyn am gyfeilio ac i pawb a ddaeth i wrando a chefnogi'r gwasanaeth.

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio, ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Dylid anfon ceisiadau i sylw Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, erbyn Mawrth 1af.

Cymdeithas Lenyddol Deiniolen Ers mis Medi mae'r gymdeithas yn cyfarfod ar y pedwerydd Llun o bob mis ac wedi cynnal nosweithiau amrywiol a difyr yn Nhŷ Elidir. Mis Ionawr gwelir y prifardd Llion Jones, Penrhosgarnedd, yn cynnal noson ar y testun 'Bardd ar y Bêl' a cyn y Nadolig cafwyd noson yng nghwmni Keith Jones, Rhiw Goch, yn trafod her cerdded holl fynyddoedd Cymru o dan y testun '100 Keith, myfyrio ar y mynydd'. Mae croeso i aelodau newydd fynychu gyda'r noson nesaf i'w chynnal ar Chwefror 25ain yng nghwmni Alwynne Morris Jones yn trafod y broses o adeiladu Hafod Eryri, sef caffi'r Wyddfa.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580



Sefydliad y Merched Bu dau weithgaredd yn ystod tymor y Nadolig. Cafwyd cefnogaeth dda i'r noson Bingo - noson o hwyl a llwyddiant gyda diolch i Maggie ac Ann am y trefnu. Yr un modd, mwynhawyd y cinio i ddathlu'r Nadolig yn y Stables, Llanwnda.

Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd gan y Llywydd. Pleser oedd estyn croeso i Ken Jones, Llanberis, i'r cyfarfod i egluro am gynllun sydd ar y gweill yn y Ganolfan yn Llanberis i ychwanegu lluniau ar furiau yr adeilad. Aeth ymlaen ymhellach i sôn am rai o enwogion y pentref, yn eu plith Gwilym Roberts, Wilbert Lloyd Roberts, Huw Richard Jones a T. Rowland Hughes.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Grŵp Eryri ar Ionawr 21ain ac edrychir ymlaen at Gyfarfod Blynnyddol y Ffederasiwn yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Chwefror 2il.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd Cynhaliwyd y gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig ar Ragfyr 16eg. Roedd yn oedfa o lawenydd a bendith yn awyrgylch arbennig yr Ystafell Addoli wedi ei haddurno a'i goleuo â chanhwylau. Cyflwynwyd neges yr Ŵyl trwy gyfrwng darlenniadau o'r Ysgrythur, cerddi a myfyrdodau, datganiadau o garolau a charolau cynulleidfaol. Cymerwyd rhan gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones ac Einir Gwyn, Robert John Williams, Dafydd Ellis, Carol Houston, Dwywnwen Williams, Mair Davies a Lowri Prys Roberts. Traddodwyd neges bwrrpasol ar gyfer Gŵyl y Geni gan y gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Cafwyd cyfle i gymdeithasu ymhellach uwch gwledd arbennig fel arfer ym Mwyty Caban. Diolch am brynghawn hyfryd o ddyfod ynghyd i ddathlu'r Ŵyl, i bawb am eu cyfraniad clodwiw ac i griw Caban. Roedd y casgliad yn ystod yr oedfa yn mynd at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

Ymunodd nifer o'r aelodau Fore Nadolig yng ngwasanaeth yr Ofalaeth yng Nghapel Cysegr, Bethel, dan arweiniad y Gweinidog Y Parch Marcus Wyn Robinson. Roedd cynulleidfa luosog wedi dod ynghyd a chafwyd neges amserol gan y Gweinidog. Gweinyddwyd y Cymun yn ystod yr oedfa.

Ar Sul cyntaf y flwyddyn roedd yr oedfa dan arweiniad y Gweinidog pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Brynhawn Sul, Ionawr 20fed, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi i ofyn am fendith ar y Flwyddyn Newydd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Lowri Prys Roberts a chymerwyd rhan mewn darlenniadau, datganiad cerddorol a gweddiau a gan Einir Gwyn, Dafydd Ellis a Robert John Williams.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Oedfaon Chwefror am 5 yr hwyr

3 Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

10 Parch Glenys Jones, Pwllheli

24 Parch Anna Jane Evans, Caernarfon

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR **DEWCS MAE O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol - 07798 718188

CRWYDRO ER BUDD Taith 2019
Taith wefreiddiol

Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019

Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taffien a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn - 01286 881911 (dydd)
Symudol - 07795 485081 (nos)
E-bost - crwydro@crwydro.com

Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r felin...

www.crwydro.com

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Merch a'i gwreiddiau yn Neiniolen yn derbyn Medal Dreftadaeth

Yn gynharach eleni derbyniodd Dr Donna Lloyd-Jones a'i gŵr, David, Fedal Treftadaeth "Sefydliad Cymru Gogledd America". Mae'r sefydliad yn cwmpasu Cymry a disgynyddion Cymreig o Ganada a'r Unol Daleithiau. Mae'r ddau wedi bod yn weithgar ar ran y Sefydliad ers blyneddau yn hybu popeth Cymreig yng Ngogledd America. Wrth dderbyn yr anrhydedd, talodd Donna Lloyd-Jones wrogaeth i'w diweddar fam, yr ieuengaf o bump o blant i deulu a ymfudodd i Wilkes-Barre, Pennsylvania o Ddeiniolen. Symudodd y teulu'n ddiweddarach i Granville, Efrog Newydd, a thra roedd ei thaid yn fyw, siaradai'r holl deulu Gymraeg. Yn bymtheg oed, collodd Catherine Jane ei mam, a symudodd yn ôl i Wilkes-Barre i fyw gyda'i chwiorydd hŷn. Yno y cyfarfu â Donald Lloyd – ei dad yntau o ardal Aberystwyth a'i fam o'r Alban. Merch Donald a Catherine Jane yw Donna, a chafodd ei meithrin yn y diwylliant Cymreig. Cadwodd Catherine Jane Lloyd gyswllt cyson a'i theulu yng Nghymru, ond bu'n weithgar hefyd gyda chymdeithasau Cymraeg a Chymreig yn yr Unol Daleithiau. Ar un cyfnod bu'n Llywydd Cymdeithas Clybiau Merched Cymraeg America. Roedd 47 ohonynt yn bod ar un cyfnod: bellach, dim ond pedwar sydd ar ôl bellach.

Yn ei hanerchiad roedd Donna yn annog y genhedlaeth ifanc i gynnal cysylltiadau â Chymru. Un o'i syniadau yw sefydlu ysgoloriaeth fel y gall teuluoedd o dras Cymreig fanteiso arni i ymweld â Chymru. Pwysleisiodd hefyd yr angen i ieuencid yn eu harddegau o America a Chymru i gysylltu a'i gilydd, a chredai mai dyna ddylai fod yn un o flaenoriaethau Sefydliad Cymru Gogledd America yn y flwyddyn i ddod.

Yn anffodus, does dim gwybodaeth ar gael am y teulu o Ddeiniolen a ymfudodd i Pennsylvania. Does dim gwybodaeth am enw morwynol Catherine Jane, nac enw ei rhieni o Ddeiniolen. Oes rhywun o'r fro yn cofio bod mewn cyswllt efo Catherine Jane Lloyd? Rhowch wybod.

Gwobr i Gwmni Gwyliau

Ers cymryd Teithiau Menai drosodd 12 mlynedd yn ôl, mae'r asiantaeth deithio yng Nghaernarfon wedi mynd o nerth i nerth dan reolaeth ac arweiniad y perchennog, Ann Jones. Yn fusnes lleol Cymraeg, sy'n cyflogi tri aelod o staff, mae Teithiau Menai yn adnabyddus ar draws gogledd Cymru erbyn hyn. Yn ddiweddar cafodd y cwmni wobwr 'High Flyer' sy'n golygu bod Teithiau Menai yn un o'r 30 asiantaeth uchaf drwy Gwmni Global am werthu gwyliau.

Clywodd Ann cyn y Nadolig ei bod wedi ennill Mini Cooper newydd sbon a theithiodd i Faes Awyr Manceinion i'w gasglu. Daeth y wobwr yma i'w rhan gan iddi fod yn un o 5 asiantaeth drwy Brydain i werthu'r nifer mwyaf o wyliau yn hedfan o Faes Awyr Manceinion. Mae Ann yn falch iawn o gael datgelu mai 'bwcing' cwpwl lleol o'i phentref ei hun, Llanrug, oedd yr un llwyddiannus a dynnwyd allan.

Mae'r mini newydd wedi cyrraedd Teithiau Menai erbyn hyn, ac yn dyst i'r gwaith caled a'r sgiliau gwerthu penigamp sydd gan Ann a'i thim. Hoffai Ann gymryd y cyfle i ddiolch i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth ffyddlon ar hyd y blyneddau ac mae hi, Siân, Siôn ac Ela yn edrych ymlaen i chwilio am y gwyliau perffaith i'w cwsmeriaid am flynyddoedd eto i ddod.

Hen Ffynnon y Cwm

Hen ffynnon loyw Cwmyglo,
O fron y llechwedd dardd,
A'i ffrydiau clir ar hyd y gro
Bob amser arnom chwardd;
Mae'n fendith uwch darfelydd dyn,
I bawb o bobl y lle,
Cyfrannu mae yn helaeth, un
O roddion pennaf ne'.

Croesawa hon y baban bach
I fyd y dagrau i fyw;
A than ei dyfroedd peraid iach
Cyflwynir ef i Dduw;
Gwas'naetha iddo'n llon o hyd,
Mewn adfyd, poen a hedd,
Drwy ddydd priodas addas fyd,
Hyd ddydd i'w roi mewn bedd.

Bu llawer o ieuencid llon
A'u bron yn llawn o dân,
Yn chwarae gynt o amgylch hon
Gan seinio melyn gân;
Ond fel darfyddai'r bwrlwm dŵr
Cyn cyrraedd min y lan,
Aeth rhai'n cyn oedran gŵr,
I orwedd ger y Llan.

Mae hon yn wyrth yn llaw ein Duw
I estyn dŵr i'r dre',
Meddyges enwog yw i'r byw
I iachus wella'r lle;
Drwy rydwelau'n glir a glân
Y daw i'n drysau ni;
A'r holl deuluoedd fawr a mân,
A'u llon groesawant hi.

Yng nghanol tymor haf-ddydd poeth
Mae ei hadfywiol rin
Yn nerthu'r gweithiwr hanner noeth
I oddef gwres yr hin;
Mae'n disychedu pawb o'r bron,
Cyfoethog a thyllawd,
A'r teithiwr blin wrth basio hon
A'i drachtia yn ei rawd.

Pan dderfydd ffrydiau bryniau ban,
Ym mhoethder hir-ddydd haf,
A'r holl ffynhonnau gylch y fan,
Bydd hi yn ffrydio'n braf;
A phan bo'r ddaear hygar hon
O'r bron gan rew yng nghlo
Yn rhydd y rheda'i dyfroedd llon
I bawb o Gwmyglo.

Parch Collwyn Morgan

(symudodd o Cwmyglo i fod yn rheithor Penmorfa a Dolbenmaen yn 1899)
Ond ble yng Nghwm y Glo roedd (mae?) y ffynnon?



Torgochiaid Llyn Padarn

Bellach mae casgliad o wyau Torgoch mewn tanc yng nghyntedd yr Ysgol ac mae'r disgyblion iau yn gofalu amdanynt. Yn eu gwyllo yn datblygu, gweld llygaid yn ymddangos, ac yn nes ymlaen yn magu cynffon. Ymhen rhyw bythefnos byddwn yn dychwelyd y torgochiaid yn ôl i'w cynefin yn Llyn Padarn. Diolch yn fawr i Dr Robin Parry am drefnu'r cyfan, am gyflwyno'r holl wybodaeth i'r disgyblion am gylch bywyd y pysgodyn unigryw hwn sy'n trigo yn Llyn Padarn ers oes yr ia, ac am effaith llygredd ar y rhywogaeth yma yn lleol. Mae'r disgyblion wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Eglwys Santes Helen

Gwasanaethau mis Chwefror
Bydd Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob dydd Sul am 11 y bore.

Cronfa Cynnal a Chadw y Fynwent

Hoffai swyddogion yr Eglwys ddiolch i bawb a gyfrannodd at gronfa y fynwent yn ystod 2018. Diolch hefyd am y rhoddion gan y canlynol yn ystod mis Ionawr eleni:

£10 : Ella Roberts, Bethel; Brenda Richardson, Penisarwaun; Anwen Hughes, Carmel ac Awen Mai Mc Dougal, Commins Coch.

Gwasanaethau a Gweithgareddau dros y Nadolig

Nos Sul, Rhagfyr 16eg, trefnwyd Gwasanaeth Carolau o gwmpas y goeden Nadolig ond yn anffodus oherwydd y glaw nid oedd yn bosib i ganu'r carolau tu allan o amgylch y goeden. Llawenydd o ganlyniad oedd gweld yr Eglwys yn orlawn a phawb yn mwynhau gweld a chlywed plant o ysgolion cymuned a chynradd Penisarwaun, Llanrug a Bethel yn perfformio eu carolau ar sgrin fawr. Yn ystod y noson fe ddaeth Siôn Corn i ymweld â phawb a rhoi y goleuadau ymlaen ar y goeden Nadolig. Yn canu

rhai o'r carolau ac yn arwain y gynulleidfa roedd triawd lleol o chwaraewyr yr ukulele, sef Calypso.

Carai swyddogion eglwysi Santes Helen, Sant Mihangel, Llanrug a Sant Deiniol, Llanddeiniolen, ddiolch yn arbennig i Brifathrawon ac athrawon yr ysgolion am ganiatau i ni recordio y disgyblion yn canu, am y paratoi a fu ac am i'r plant berfformio mor wych.

Diolch hefyd i Calypso am eu rhan yn y dathlu. Yn dilyn y gwasanaeth roedd paned o de a mins pei ar gael yn Neuadd yr Eglwys - cyfle i gymdeithasu ac i'r plant gyfarfod â Siôn Corn. Da oedd gweld y neuadd yn llawn a phawb wedi mwynhau y noson. Diolch i bawb a gefnogodd yr arbrawf a gobeithir y gellir trefnu digwyddiad tebyg eto yn 2019. Yn dilyn y noson arbennig hon, cynhaliwyd Eglwys Agored nos Iau, Rhagfyr 20fed, Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau dydd Sul, Rhagfyr 23ain, a'r casgliad yn mynd at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

Fore Noswyl Nadolig bu Gwasanaeth Preseb gyda dramodig o Stori'r Nadolig ar gyfer y plant a Chymun Bendigaid Teuluol am naw o'r

gloch yr hwyr.

Roedd yn hyfryd gweld niferoedd lluosog o wahanol gymunedau lleol yn y gwasanaethau ac mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau wythnosol yn ystod y flwyddyn.

Gyrfaon Chwist a Bingo Arian Mae'r Gyrfaon wedi ail ddechrau bob nos Fawrth yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch a chynhelir y Bingo Arian bob yn ail nos Fercher yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch gan ddechrau ar Ionawr 30ain ac yna 13eg a 27ain o Chwefror. Croeso cynnes i bawb i'r gweithgareddau hyn. Bydd yr elw o'r nosweithiau yn cael ei rannu gydag achosion lleol.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Sesiwn Chwaraeon – Croesawyd Lowri o'r Urdd i gyflwyno sesiwn blasu chwaraeon i'r Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau bore dydd Mawrth, Ionawr 15fed. Roedd pawb wedi cael hwyl yn cymryd rhan.

Diogelwch y ffyrdd – Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn gwersi ar ddiogelwch y ffyrdd bob dydd Iau hyd at hanner Tymor.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri Enillydd Mis Rhagfyr oedd Beca Gwyn Jones Llanfairpwll gyda Rhif 28. Llongyfarchiadau! Diolch i bawb am gefnogi'r bêl bonws yn ystod 2018 a phob lwc i bawb yn 2019!

Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i Dilys a Nancy am eu rhodd at barti Nadolig y plant ac am y tuniau melysion. Fore Sul, Ionawr 13eg, cynhaliwyd yr ysgol Sul yn yr Ystafell Gymuned oherwydd y manteision o gynhesrwydd, toiledau, cegin a maes parcio. Dymunir diolch i ymddiriedolwyr capel Bosra am gael y fraint o ddefnyddio Capel Bosra cyhyd, gyda chenedlaethau o blant wedi elwa o'r boreau cyfeillgar a moesol. Yn sicr fe bery Ysgol Sul Bosra yn agos at galon pob un o'r holl aelodau a'r athrawon. Estynnwyd croeso mawr i Joe ac Elis atom ac mae'r ddau wedi setlo'n gyflym

yn ein mysg. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd atom am 10.00 y bore. Dymuna Anti Ann ddiolch am y parti bendigedig!

Gwellhad Ar ddechrau 2019 dymunir iechyd a gwellhad i bawb sy'n sâl yn y pentref, gyda'r dymuniadau gorau i ffrindiau sy'n derbyn triniaethau ar hyn o bryd. Anfonir ein dymuniadau gorau at Gwenllian a Carl am iachâd buan wedi damwain car yn ddiweddar.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd: Nia Lewis, Penpwlloch, a Rhian Thomas, Seion.

Atgoffir pawb ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth am £6 y flwyddyn a gellir talu drwy Archeb Banc sydd ar gael gan aelodau'r pwyllgor. Edrychir ymlaen at gael aelodau newydd - mae'r Clwb Cant yn help mawr tuag at y gost o reoli'r Neuadd Gymuned. Cynhelir y Cyfarfod Blyneddol nos Lun, Ionawr 28ain, am 7.00 yn yr Ystafell Gymuned.

Llongyfarchiadau i Twm Herd ac Efa Baines ar ennill prif wobrau yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail cyn y Nadolig - y ddau yn gyn-enillwyr brwd yn yr Eisteddfod Bentref.

Llongyferchir Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa, ar ddod yn or-nain a thaid i ferch fach Manon a Cefyn ar ddydd Nadolig ac i fab bychan Cadi a Dan ar ddydd olaf y flwyddyn 2018 - ddau drysor amhrisiadwy dros y Nadolig.

Diffibrilydd Cafwyd cynrychiolaeth gref o'r pentref mewn cyfarfod ar nos Lun, Ionawr 4ydd, ar gyfer cael diffibrilydd a chytunwyd i gael cyfarfod eto nos Fercher, Ionawr 23ain i ethol swyddogion ac aelodau pwyllgor i gynnal gweithgareddau i godi arian tuag at y gost o gael diffibrilydd a leolir ar wal allanol yr ysgol Gynradd.

Eisteddfod Bentref 2019 Wedi Eisteddfod lwyddiannus yn 2018 edrychir ymlaen am Eisteddfod fywiog eto yn 2019. Cynhelir pwyllgor nos Lun, Chwefror 4ydd. Dowch â'ch llyfrau canu a llên efo chi.

CYNGERDD NADOLIG CORAU CAERNARFON YN CASGLU £1,243 I AMBIWLANS AWYR CYMRU



(chwith i'r dde): Iolo Thomas - Ysgrifennydd, Côr Meibion Caernarfon; Alwyn Jones, Cydlynnydd Gwynedd Ambiwlans Awyr Cymru ac Alwynne T Jones, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon yn derbyn Tystysgrif o Werthfawrogiad ar ran y pedwar côr

Casglwyd £1,243 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru mewn cyngerdd Nadolig llwyddiannus yn Eglwys y Santes Fair Caernarfon ar 7 Rhagfyr 2018 lle canwyd carolau gan bedwar o gorau tre'r Cofis: Côr Dre, Côr Cofnod, Côr Narfon a Chôr Meibion Caernarfon.

Mae'r corau yn eu tro yn trefnu'r digwyddiad blynyddol a chydgordiwyd y cyngerdd hwn gan Gôr Meibion Caernarfon. Cytunodd y pedwar côr i gyflwyno'r elw i Ambiwlans Awyr Cymru. Ar nos Fawrth 8 Ionawr 2019, daeth Alwyn Jones, Cydlynnydd Gwynedd, Ambiwlans Awyr Cymru i ymarfer cyntaf Côr Meibion Caernarfon wedi toriad y Nadolig i dderbyn yr arian.

Meddai: "Diolch i'r pedwar côr am eu haelioni. Codwyd y swm enfawr o £1,243 - cyfraniad gwerthfawr tuag y £6.5 miliwn y flwyddyn yr ydym ei angen i gadw ein pedair hofrennydd yn hedfan ym mhob rhan o Gymru.

"Roedd Eglwys y Santes Fair yn llawn dop a mwynhaodd pawb ganu carolau ysbrydoledig gan y pedwar côr."

Meddai Alwynne T Jones, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon: "Mae'r cyngerdd hwn yn ein gosod mewn cywair Nadoligaidd bob blwyddyn. Y tro yma, roedd yn gyfle i ddweud diolch yn fawr iawn am wasanaeth yr hofrenyddion coch sy'n achub cymaint o fywydau."

TAITH WANWYN I GUERNSEY YN DERBYN NAWDD SYLWEDDOL GAN GYD SEFYDLYDD CWMNI SPECSAVERS

Diolch i gysylltiadau personol un o'r aelodau, mae Côr Meibion Caernarfon yn cynllunio taith gyffrous i Guernsey dros y cyfnod 25-29 Ebrill 2019. Gwneir hynny gyda chymorth cyd sefydlydd cwmni Specsavers - y nawdd mwyaf a dderbyniodd y côr ers ei sefydlu 51 mlynedd yn ôl.

Bydd hogia'r dre yn hedfan i Guernsey ar wahoddiad Côr Meibion Cymry'r ynys, gan aros tair noson yn Saint Peter Port. Yn ystod yr ymweliad bydd y ddau gôr yn cydganu mewn cyngerdd mawreddog yn neuadd hardd y St James Concert Hall er budd elusen leol.

Gwnaed y cysylltiad gan Guto Roberts, un o ail denoriaid Côr Meibion Caernarfon, a mab i Lywydd y côr, Dr Huw Roberts. Treuliodd Guto bedair blynedd yn gweithio yn Guernsey fel nyrs cyn dychwelyd i'w fro enedigol.

Meddai: "Mae gen i atgofion melyn iawn am ynys Guernsey. Yno y cwrddais â'm gwraig, Gerda, a bum yn canu gyda Chôr Meibion Cymry Guernsey, neu Welsh Boys Aloud fel yr oeddem i gychwyn.

"Penderfynais geisio trefnu taith i Gôr Meibion Caernarfon i'r ynys dlos hon. Cysylltais â chwmnïau gwahanol yn chwilio am nawdd, yn cynnwys Dame Mary Perkins, cyd sefydlydd Cwmni Specsavers, sy'n byw yn Guernsey. Mae hi'n hael ei chefnogaeth i'r celfyddydau ar yr ynys ac yn hoffi canu corawl.

"Cynigiodd nawdd sylweddol i'r daith fel bod cost yr ymweliad tri diwrnod yn rhesymol iawn i aelodau Côr Meibion Caernarfon. Edrychaf ymlaen at gyd ganu efo hen ffrindiau. Gobeithio y bydd Dame Mary ar gael i ddod i wrando arnom, ac y bydd y tywydd yn braf!"

Un arall sy'n croesawu rhodd Dame Mary Perkins yw Dyfan Jones, rheolwr siop Specsavers Caernarfon.

Meddai, "Ffurfiwyd Specsavers ganddi hi a'i gŵr Doug yn 1984. Erbyn hyn mae'r cwmni teuluol yn cyflogi bron i 30,000 o bobl mewn 1,400 o siopau ym Mhrydain, Iwerddon, Sgandinafia, Sbaen, Awstralia a Seland Newydd. Mae Dame Mary Perkins yn berson arbennig iawn."



Carreg Beuno, Ffynnon Beuno a ffynhonnau eraill.....

Mae'n werth disgwyl weithiau i gael ymateb i rai o'r straeon a'r hanesion sy'n ymddangos yn y golofn, ac ychydig cyn y Nadolig daeth llythyr cynhwysfawr yn cael ei ddilyn gan un arall yn ymateb i hanes a gyhoeddwyd yn ol yn 2006. Gwell hwyr na hwyrach meddai'r hen ddihareb, a gwell hwyrach na byth meddaf innau. Llauer o ddiolch i John Mathew Roberts o'r Felinheli am anfon toreth o stffw – yn atgofion, cyfeiriadau a lluniau am ardal sydd ar gyrion bro'r "Eco" a bro "Lleu". Dyma'r ardal sy'n ymestyn o'r Bontnewydd i Ros Bach ac ymlaen am y Waunfawr, gan ddilyn ochr ddwyreiniol afon Gwyrfa.

Dyma'r ardal hefyd sy'n gysylltiedig a hanes Beuno Sant cyn iddo symud a sefydlu eglwys yng Nghlynnog. Tybir mai yn ardal Gwaredog yr oedd ei eglwys gyntaf. Ond ble roedd Carreg neu Faen Beuno yn wreiddiol? Dywed J.M. Roberts fod Maen Beuno wedi ei symud i 'Glanbeuno', Bontnewydd gan Mr John Albert Alexander Williams, ond pan brynodd Blas Aberglaslyn yn 1891, aeth a'r garreg yno. Gwerthwyd Plas Aberglaslyn i wr o'r enw Horace Raven o Leicester yn 1914, a throsglwyddwyd y garreg yn rhodd i Eglwys Clynnog. Mae adroddiad byr yn Archeologica Cambrensis (1961) yn adrodd mai yn 1918 y trosglwyddwyd y Garreg i Glynnog, a'i bod wedi ei gosod yno yn Eglwys-y-bedd.

Undeb y Mamau, Penisarwaun...

Gyda diolch i Haydn Lewis, Pen Pwll Coch am enwi bron y cyfan o'r aelodau a ymddangosodd yn llun Undeb y Mamau 1956. Ond nid yw'n ymddangos mai merched o Benisarwaun yw'r cyfan ohonynt. Daw rhai o Frynrefail, Pontrhythallt a Chrawia, Llanrug. Efallai eu bod yn aelodau ym Mhenisarwaun, neu fod yr achlysur a gofnodir yn y llun yn gyfarfod o wahanol adrannau yn y fro.

Dyma'r enwau (o'r chwith i'r dde), gan gychwyn yn y rhes gefn:

Mrs Llywelyn Pritchard (gwraig y clochydd), Mrs J. May Jones, Mrs Roberts, Ship, Pontrhythallt; Mrs Gwladys Thomas, Mrs Mary Davies, ?? (o bosib Mrs Beti Roberts), Mrs Jackie Owen, Stabla; Mrs Chick, Mrs H. Hughes, Ty Gwyn; Mrs A. Pritchard, Pensarn, Crawia;

Ail res: Mrs Gwen Lewis, Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion; Mrs Williams, Ty'n Waen; ??, Mrs Betty Evans, Mrs Ford, Mrs Tom Evans, Trem Eilian; Mrs Fred Naylor, Mrs Orwig Roberts, ??, Mrs Amy Rowlands, Miss Vera Naylor.

Rhes flaen: Y Parch D.W. Edwards, ??, ??, Mrs Armstrong Roberts, Ty'n Pwll; Mrs Ellis, Coch Hir; Mrs Margaret Lewis, Bryn Madog; Mrs Rowlands, Becws; Mrs Rose Jones, Mrs J. Roberts, Deiniol House, Brynrefail; Mrs Katie Williams, Tai Brics; a Mrs Williams, Lon Las, Crawia.

Oes rhywun yn adnabod y pump enw coll?

Pwy oedd Huws Drygist?

Dyma wybodaeth a gasglwyd gan Eifion Roberts am y gŵr a roes ei enw i'r bont yng nghanol pentref Llanberis.

Ganwyd Richard Hughes yn Llangefni yn 1833, mab Hugh a Catherine Hughes. Cludwr nwyddau a phobl oedd y tad, ac erbyn 1851 mae'r teulu a chwech o blant yn byw yn y Ship Inn ar y Stryd Fawr yn Llangefni. Erbyn hyn mae Richard, sy'n ddeunaw oed, yn brentis fferyllydd. Yn 1862 priododd efo gwraig weddw o'r enw Jane Ellis, yn wreiddiol o Ddinorwig. Ganed merch iddynt yn 1864 yn Rhyl.

Erbyn 1866 maent wedi symud i Fangor, ac fe'i ceir yng Nghyfrifiad 1871 yn byw ar y Stryd Fawr yno: Richard bellach yn

Trafodwyd eisoes leoliad Ffynnon Beuno – gerllaw gorsaf Tryfan Junction ar Reilffordd yr Ucheldir, ond mae J.M. Roberts yn cyfeirio at ffynhonnau eraill yn yr ardal hefyd. Dywed fod ffynnon ('spring' neu ddwr codi) mewn cae ar dir Castellmai o'r enw Cae Castell, ac afon Beuno yn ffurfio un terfyn i'r cae. Byddai trigolion yr ardal yn casglu Berw Dwr o'r lle cyn gwlyb hwn.

Roedd ail ffynnon rhyw ganllath i fyny'r dreif o giat Castellmai – ac ar y llaw dde, ar dir Bodwyn. Roedd trydedd ffynnon yng Nghastellmai ei hun. Y dybiaeth yw fod y dwr o ffynnon Castellmai yn treiddio dan ddaear cyn cod i'r wyneb yng Nghae Castell.

Sonia hefyd am ddwy ffordd. Mae'r gyntaf – yr un a elwir yn ffordd 'Rufeinig', yn arwain o Segontium heibio i Ty'n Gors ac ymlaen trwy fuarth Castellmai, Plas Glanrafon ac ymlaen am y Waunfawr a'r de. Ble tybed roedd hon yn croesi afon Saint? Yr ail ffordd oedd honno o ardal y Bontnewydd draw am Gaeathro. Yn ol J.M. Roberts, roedd hon yn bodoli yn y ddeunawfed ganrif ac yn dilyn afon Beuno i'r pant rhwng Castellmai a Rhosbach. Byddai angen astudio hen fapiau i weld a oes olion rhai o'r ffyrdd hyn yn cael eu harddangos.

Bydd mwy o hanes yr ardal hon yn ymddangos y mis nesaf.

Dathlu Cymanfa Ganu ar Sul y Cofio

Braidd yn hwyr i adrodd am ddigwyddiad ym mis Tachwedd y llynedd? Ydi, mae'n debyg, ond dros y Calan y derbynais yr adroddiad am yr achlysur – yn Slatington, Pennsylvania. Gyda diolch i Miss Mair Foulkes, Penisarwaun am anfon rhaglen y gymanfa i mi; hithau wedi ei derbyn gan berthynas o America, Keith Rosenberg.

Mae'r gymanfa wedi ei chynnal yn Slatington ers 1959, ond mae'n ymddangos fod nifer y Cymry yn yr ardal yn edwino. "Deuwch, cannwn i'r Arglwydd" yw'r ychydig Gymraeg ar y rhaglen, ond roedd y gynulleidfa yn derbyn "Te bach a bara brith" wedi'r oedfa. Dydi rhai pethau ddim yn newid!

Roedd cefnder i dad Miss Mair Foulkes – William Griffith Foulkes, yn aelod o'r pwyllgor cynharaf ar ddiwedd y 1950'au, gydag aelodau o'r teulu yn parhau i fynychu, ond yn ol Keith Rosenberg, nid eglwys Gymraeg benodol ydyw bellach. Symudwyd o'r adeilad gwreiddiol i gyrion Slatington, ac enw'r eglwys fodern yw Eglwys Bresbyteriaidd Unedig Slatington.

Tybed a aeth eraill o fro'r "Eco" i Bennsylvania, ac a oes cyswllt yn parhau gyda'u teuluoedd yn "yr Hen Wlad"?

"chemist/druggist".

Symud wedyn fu eu hanes, ac yn 1881 mae Jane a phump o blant yn Dôl Peris, Llanberis, ond does dim sôn am Richard! Nid yw gartref ar noson y cyfrifiad. Awgryma Eifion y gallai fod mewn Coleg Diwinyddol, oherwydd erbyn Cyfrifiad 1891 mae'n fferyllydd a gweinidog gyda'r Bedyddwyr – er nad yn Llanberis. Mae'r teulu'n parhau yn Dôl Peris, ac yn 1901 hefyd, gyda'r tri plentyn hynaf yn ddi-briod.

Ond symud fu eu hanes eto, ac yn 1911 roedd yn byw yn Perisfa, 8 Vaynol Cottages gyda'u dwy ferch ddi-briod. Roedd y mab erbyn hyn yn briod ac yn byw yn Allandale, Ffordd yr Eglwys.

Dosbarthiadau Sant Ioan, Llanrug!




St. John Ambulance Class, Llanrug, 1929.

Diolch i Margaret Roberts, Caernarfon am anfon y llun a'r wybodaeth am un o ddosbarthiadau Sant Ioan, Llanrug (lluniau yn rhifyn Nadolig). Meddai: "Wrth weld y ddau lun o ddosbarthiadau Sant Ioan Llanrug yn 1929, sylweddolais mai fy modryb oedd mewn penwisg "sister" wrth ochr y doctor. Bydd rhai yn dal i gofio Nyrs Closs fu'n nyrs ardal ym Mro'r Eco am flynyddoedd. Cofiais fod gen i lun tebyg o'r merched oedd yn y grŵp. Hi oedd yn hyfforddi aelodau'r dosbarth. Bu'n nyrs ysgol

ac yn fydwraig leol a dywedai yn aml, "Un o mhlant i wyt ti achos fi ddaeth â thi i'r hen fyd yma." Daeth yn brif ymwelydd iechyd a hyd yn oed pan oedd yn ei saith degau gwirfoddolai yn y clinic plant yn y dre. Daeth o'r Fach-wen i Gwm-y-Glo pan briododd ac roedd ganddi ddau fab, Ieuan Closs a John Llywelyn Evans ac mae mab John - Deiniol Evans yn byw ym Mhenisarwaen." Ond a oes enwau eraill? Tybiaf fod Ellis Ifor Hughes, Hugh Green a Daniel Lewis yn un o'r lluniau, ond rwy'n hapus i gael fy nghywiro!

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch

ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Fel y bydd rhai ohonoch yn ymwybodol dwi'n siŵr, mae gan Gaeathro ohebydd newydd. Lowri ydw i a dwi wedi fy ngeni a fy magu yng Nghaeathro. Wedi cyfnod yn y Brifysgol yng Nghaerdydd, rwyf bellach wedi dychwelyd adref ac yn gweithio yng Nghaernarfon. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ar ran y pentref a'r cyffiniau i Rhiannon am ei gwaith diflino yn gohebu dros y blynyddoedd. Edrychaf ymlaen i ymgymryd â'r dyletswydd newydd hwn – gyrrwch unrhyw newyddion neu hysbyseb sydd gennych i fy nghyfeiriad e-bost lowriceiriog@hotmail.co.uk.

Nadolig Diolch yn fawr unwaith eto i'r Gymdeithas Cae Chwarae am osod y goeden Nadolig odidog ac unigryw yng nghanol y pentref. Braff oedd clywed fod llawer yn canmol y goeden eto dros gyfnod yr Ŵyl. Diolch hefyd i bawb a gymrodd ran yn y gwasanaeth Nadolig yn y Capel fis Rhagfyr. O'r plant ieuengaf yn canu a pherfformio i'r aelodau triw a ffyddlon sydd yn rhoi o'u hamser a'u gwasanaeth yn flynyddol – diolch yn fawr iawn i bawb.

Profedigaeth Trist oedd clywed am farwolaeth John (Glyn) Jones yn Ysbyty Gwynedd ar 16eg o Rhagfyr yn 74 oed. Roedd dathliad o'i fywyd yn Amlogsgfa Bangor ar yr 21ain o Ragfyr. Cyn symud yn ddiweddar i Hen Furiau, Caernarfon, bu'n byw yn Llety'r Wennol a Bodawel yng Nghaeathro. Cydymdeimlwn â'i wraig, Mair 'Tŷ Gwyn', y plant, Delyth a Gareth, a'i ferch yng nghyfraith, Jan. Roedd ganddo bump o wyrion a wyresau, sef Jac, Lowri, Lisa, Eleri a Harri. Yn ystod ei fywyd, roedd ganddo enw da fel garddwr o fri, ac roedd i'w glywed yn aml yn cyfrannu mewn cyfweiliadau ar raglenni fel 'Garddio' a 'Galwad Gynnar' ar Radio Cymru.

Priodas Llongyfarchiadau i Catrin Gwenllian, gynt o 3 Erw Wen, ac Iwan Trefor Jones ar achlysur eu priodas ddydd Sadwrn, y 29ain Rhagfyr 2018, yng Nghapel Caeathro gyda'r Parchedig Marcus Robinson yn gweinyddu. Dyma'r ail briodas yn unig i gael ei chynnal yng Nghanolfan y Capel ers ei adnewyddu ar ddechrau'r Ganrif. Roedd yn braff gweld y Capel yn llawn o deulu a ffrindiau Catrin ac Iwan yn ymuno â hwy i ddathlu. Pob dymuniad da i chi yn y dyfodol.

Gwellhad Cofion at Clive James, gynt o Hafan, wedi cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Braff yw clywed dy fod yn gwella, Clive.

Diolch Dymuna Aled Jones, 3 Bryn Gof, ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato yn dilyn cyfnod o salwch diweddar. Mae Aled bellach adref ac yn gwella. Hoffai ddiolch i bawb am yr ymweliadau a'r cofion niferus.

Capel Gwasanaethau - Ar y 3ydd Chwefror am 2:00pm, gweinyddir y Cymun gan y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Ar y 17eg Chwefror am 2:00pm, cynhelir gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Glenys Jones. Diolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth a chyfraniad yn ystod y gwasanaeth Nadolig a'r gwasanaeth Carolau. Casglwyd swm o £227 tuag at Apêl Swami Sulawesi Cymorth Cristnogol.

Tynfa Misol. 1af (£40) – Rhif 12: Zonia Bowen (Cefn Coed); 2il (£25) – Rhif 86: Laura Griffiths (Rhanna, Stad Glandŵr); 3ydd (£15) – Rhif 49: O'Grady (Tyddyn Whiskin); 4ydd (£5) – Rhif 27: Helen Fretwell (22 Rhes Glangwna).

Gwellhad Buan Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Marwolaeth Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd fore Gwener, Ionawr 18fed, bu farw Carl McGee, Hyfrydle, yn 43 mlwydd oed wedi brwydr ddewr yn erbyn afiechyd creulon. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Anjia a'r plant, Jessica a Lewis, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Diolch i'r gwirfoddolwyr a aeth o amgylch y pentref i gasglu sbwriel ddechrau mis Ionawr. Tybed a wna perchnogion cŵn ddilyn eu hesiampl a chodi baw eu cŵn, yn arbennig felly ar hyd y Stryd Fawr a'r llwybr rhwng yr eglwys a heibio cefn Menter Fachwen hyd at y becws.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau bnawn Mawrth, 18fed o Ragfyr, yn eglwys St Mair. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Hilda, Joyce, Louie, Enid ac Iris.

Darllenwyd cofnodion o gyfarfod mis Tachwedd gan Auriel a chafwyd adroddiad am gyfarfod yr Ystwyll a gynhaliwyd yn y Gadeirlan. Trafodwyd dathliadau ar gyfer can mlynedd y gangen yng Nghaernarfon.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel a mwynhawyd paned a mins pei gan bawb. Anfonwyd cerdyn Nadolig ac anrheg i'r aelodau oedd yn wael. Enillwyd y raffls gan Nerys a Dorothy. Cyfarfod nesaf ar 15 Ionawr. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.


* * *

Cyfarfu'r aelodau yn eglwys St Mair bnawn Mawrth, Ionawr 15. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Auriel a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Hilda, Iris, Enid, Louie a Carys.


Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Hilda am yr anrheg Nadolig. Cymerwyd y gwasanaeth gan Auriel a'r aelodau yn darllen y gweddiau.

Y mae patrwm o'r Robin Goch wedi dod i law i'r gwirfoddolwyr sydd ar y ward yn Ysbyty Gwynedd. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Jean a Lesley a diolchwyd iddynt gan Marjorie. Enillwyd y raffl gan Jean.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf ar Chwefror 19.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

TUDALEN YR IFANC

Mae gallu'r Gymraeg yn un o'r sgiliau pwysicaf i'r actor Siôn Emyr o Benisarwaun, ac yn ei alluogi i berfformio ar hyd a lled Cymru. Dyma'r Eco'n mynd i ddarganfod mwy am ei waith ac am ei berfformiad diweddaraf yn 'Y Llew a'r Crydd':



Ers pryd wyt ti wedi bod yn actio a sut ddechreuodd yr awydd i fod yn actor?

Un o'r cynrychiadau cyntaf dwi'n cofio bod yn rhan ohono ydy 'Oliver' efo criw Rygarug yn Llanrug. Wedyn 'nes i ymuno efo Ysgol Glanaethwy a chael blas ar berfformio ledled Cymru a dros y byd a chael profiadau gwych - o gyrraedd rownd derfynol 'Last Choir Standing', perfformio yn Tsieina a chael canu yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd perfformio neu 'ddangos fy hun' yn dod yn reit naturiol i fi i fod yn onest. Mae 'na werth oriau o fideos adra ohonnoff fi yn adrodd ryw gerdd neu'n canu ryw gân pan o'n i'n hogyn ifanc. Ond, mi ddechreuodd yr awydd i gael gyrfa mewn actio pan ges i ran 'Siôn' ar raglen 'Rownd a Rownd' yn 2007. Dyma lle 'nes i ddechrau deall pa mor eang a chyffrous oedd y byd perfformio/actio a dyma lle nes i benderfynu mynd i Goleg Mountview yn Llundain i astudio actio a pherfformio ymhellach.

Rho flas o'r pethau ti 'di bod ynddo dros y blynyddoedd...

Ers i mi adael coleg yn 2013, dwi wedi bod yn lwcus iawn o ran gwaith. Ges i'r fraint o weithio efo Theatr Genedlaethol Cymru a'r cynrychiadau 'Chwalfa' a 'Mrs Reynolds a'r Cena Bach'. Dwi 'di bod nôl a blaen yn Theatr Clwyd dros y blynyddoedd ond yn ddiweddar yn rhan o sioe 'Llew a'r Crydd'. Hefyd, dwi 'di cael teithio i bob twll a chornel o Gymru drwy weithio efo cwmnïau fel Arad Goch a Mewn Cymeriad sy'n gwneud gwaith gwych ar gyfer plant a phobl ifanc. O ran teledu - o'n i'n rhan o gast 'Dim Ond y Gwir' a 'FM', gafodd eu cynhyrchu gan Rondo Media a dwi wedi cael bod nôl yn 'Rownd a Rownd' unwaith neu ddwywaith hefyd. Dwi'n gwneud dipyn o waith trosleisio 'cartwns', ysgrifennu a chynnal gweithdai hefyd. Mai'n bwysig cael amrywiaeth!

Mae'n amlwg dy fod yn rhan o bob math o waith actio felly, llyfan a theledu. Oes gen ti ffefryn? Neu hoff gynhyrchiad?

Does gen i ddim hoff gynhyrchiad - mae pob darn o waith yn hollol wahanol ac yn gofyn am sgiliau gwahanol. Hefyd, dwi'n gweithio efo pobl wahanol ymhob swydd felly mae hi'n amhosib cymharu. O ran perfformio, dwi'n mwynhau'r manylder sy'n mynd mewn i waith teledu

neu'r gwallgofrwydd sy'n angenrheidiol i wneud gwaith trosleisio 'cartwns' ond does 'na ddim byd yn cymharu hefo perfformio'n fyw ar lwyfan. Dwi wrth fy modd efo'r egni nerfus a'r cyffro cyn perfformio a'r profiad o gael cynulleidfadau reit o'ch blaen chi

Y peth diweddaraf i chdi fod yn rhan ohono oedd sioe theatr i blant 'Y Llew a'r Crydd'. Dywed ychydig am dy brofiad.

Ro'dd o'n brofiad hyfryd o'r dechrau i'r diwedd. Ro'dd hi'n braf cael bod adra yn perfformio yn Pontio a Theatr Clwyd a chael gweithio efo pobl dwi'n adnabod yn dda, Siôn Eifion Roberts ac Emyr John y cyfarwyddwr. Mi gawsom ni ryddid i ddyfeisio'r sioe, ysgrifennu'r sgript a'r gerddoriaeth ein hunain sy'n ffordd wych o weithio yn fy marn i. Mi oedd pawb yn awyddus i greu sioe Nadoligaidd a hudolus i blant a theuluoedd gan gynnwys cymaint o elfennau adrodd straeon ag oedd yn bosib. Dwi'n falch iawn fy mod i wedi cael bod yn rhan o'r sioe a gobeithio wir gawn ni gyfle i ddod a 'Cwilsyn' a 'Metso' yn ôl ryw ddydd.

Ti wedi bod yn rhan o sawl sioe i blant a phobl ifanc, ydy hyn yn faes penodol ti'n mwynhau ei wneud?

Dwi wrth fy modd yn gweithio hefo plant a phobl ifanc. Maen nhw mor onest - sy'n gallu bod yn beth da ag yn beth drwg. Ond mae plant mor frwdfrydig ac mae ganddynt gymaint o egni - mae'n anodd peidio mwynhau gweithio hefo nhw. Yn aml iawn, mae gweld sioe yn yr ysgol neu fynd i'r theatr ar drip ysgol yn gyflwyniad neu'n brofiad cyntaf o theatr a'r byd perfformio i lawer o blant a phobl ifanc, a dwi'n meddwl bod hi'n hollbwysig bod y profiad cyntaf hwnnw yn un cadarnhaol ac ysbrydoledig. Yn fy marn i, mae'r cwmnïau sy'n arbenigo mewn theatr i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cynhyrchu gwaith gwych.

Beth arall sydd ar y gweill gen ti.... nôl i fro'r Eco yn fuan?

Digon i 'nghadw i'n brysur am flwyddyn arall gobeithio. Dwi'n lwcus iawn fod fy ngwaith i yn dod a fi adra i fro'r Eco yn aml iawn. Un o'r sgiliau pwysicaf sy' gen i fel actor ydy'r gallu i siarad Gymraeg a dwi mor falch mod i'n cael y cyfle i berfformio ar hyd a lled Cymru.

Dathlu Caerddoriaeth Gymraeg ar Ddydd Miwsig Cymru



Mae blwyddyn wedi hedfan heibio unwaith eto ac mae Dydd Miwsig Cymru yn ei ôl! Ar Chwefror yr 8fed bydd plant, pobl ifanc a chymunedau lu yn cael eu hannog i roi tro ar wrando ar gerddoriaeth iaith Gymraeg, rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i gynyddu niiferoedd siaradwyr i filiwn erbyn 2050. Gyda cherddoriaeth Gymraeg yn mynd o nerth i nerth (a chân gan y band lleol, Alfa, bron a chyrraedd 2 filiwn ffrydiad erbyn hyn!) beth am ddathlu'r diwrnod drwy ymuno yn yr hwy!?!

Gyda gigs o bob lliw a llun yn cael eu trefnu'n arbennig i ddathlu'r achlysur - gig 4a6 gyda Al Lewis a Bwncath yng Nghlwb Canol Dre Caernarfon er enghraifft - a digwyddiadau cerddorol siŵr o fod i'w

cynnal yn ysgolion ein hardal, bydd digonedd o gyfle i fwynhau a chael blas o'r gerddoriaeth wych sy'n cael ei greu yn Gymraeg. Os na fyddwch chi'n gallu gwneud eich ffordd i wrando'n fyw, mae sawl rhestr chwarae wedi ei chreu yn arbennig, i gyd dan themâu gwahanol yn cynnwys: 'Cyn Cwsg', 'Disgo Ysgol', 'Clasuron', 'Carioci', 'Dros Baned', 'Canu Gwlad' a llawer iawn mwy. Rhywbeth at ddant pawb felly! Chwiliwch am Ddydd Miwsig Cymru ar eich porwr gwe i'w darganfod.

Gobeithio erbyn i rifyn nesaf yr Eco ddod i law byddwch chi ddarllenwyr wedi cyffwrdd blaen bawd eich troed neu blymio fewn i wychder y Sin Gerddoriaeth Gymraeg. Mwynhewch!

Ysgol Llanrug Croeso

Croeso i Gwenan Lockley sydd wedi cychwyn fel athrawes Blwyddyn 5 a 6 y tymor hwn. Fe'i ganwyd yn Llandrindod, ond derbyniodd ei haddysg yn Aberteifi cyn graddio mewn cerdd ym Mangor a dilyn cwrs addysg. Roedd ei swydd gyntaf yn Aberystwyth cyn symud i Ddeganwy ac yna yma i Lanrug. Cerddoriaeth yw ei phrif ddiddordeb, ond mae hefyd yn hoff o gerdded, darllen a bwyta allan. Mae'n edrych ymlaen yn fawr iawn i weithio mewn cymuned glos fel Llanrug.

Tim Pel-rwyd



Bu genethod Blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn Nhwrnament yr Urdd, a mwynhau'r profiad.

Profedigaethau Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwyndaf Rowlands a Catrin a'r hogia yn eu profedigaeth fawr o golli tad Gwyndaf yn 69 mlwydd oed, o Dŷ Capel, Llanfairpwll.

Yr un modd estynnwn gydymdeimlad llwyr at deulu Merfyn Hughes, Clawdd Newydd, a fu farw yn 80 oed. Cofiw'n yn arw at ei wraig, Rhiannon a'r plant, David, Eirian, Eleri a Gareth, wedi colli tad yng nghyfraith taid a hen daid annwyl.

Diolchiadau Dymuna Menna Williams, Fferm Minffordd, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am eu dymuniadau da, galwadau ffôn a chyfarchion ymhob ffordd. Mae yn ôl yn Llanrug erbyn hyn wedi treulio amser yn Ysbyty Aintree, Lerpwl, wedi cael llawdriniaethau. Y mae yn gwella a chryfhau yn ddyddiol. Diolch yn fawr iawn i bawb yn yr ardal.

Gwaeledd Braf yw deall bod Ms Jinni Owen, 5 Hafan Elan, wedi dod gartref yn dilyn

arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella a phob dymuniad da ichi.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Guto, mab Rolant a Carys Wyn, Fron Hyfryd Uchaf, ar ei ddyweddiad â Hannah.

Hefyd i Ffion, merch Gwyn a Haf Williams, Ty'n y Coed, ar ei dyweddiad ag Owain Rowlands o Langathen, ger Llandeilo.

Pob bendith i'r ddau gwpwl.

Babi

Llongyfarchiadau i Natalie a Mike ar enedigaeth eu merch fach, Esther Grug, wyres i Sharon ac Eurwyn, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, a nith i Elin.

Diolchiadau Dymuna teulu y ddiweddar Katie Thomas, Rhosgadfan, ddiolch o galon i drigolion bro'r Eco am bob arwydd o gefnogaeth a chydymdeimlad o golli mam a nain annwyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Heulwen ac Emyr Parry, 57 Glanffynnon yn eu profedigaeth o golli ei mam, sef Mrs Thomas, Rhosgadfan, yn 97 mlwydd oed. Hefyd cofiwn at Lisa a Bedwyr yn eu colled o nain annwyl iawn.

Pen-blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Efa Lewis Roberts, Rhos Rhyddallt, merch Aled a Bethan, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar ddydd Nadolig.

Clwb Clychau'r Grug

Anfonir ein cydymdeimlad llwyr at Glenys a Siencyn yn eu profedigaeth o golli brawd Glenys ar drothwy'r Nadolig. Dymunir popeth da i chi yn

2019.

Cydymdeimlir hefyd â Heulwen ac Emyr yn eu profedigaeth o golli mam Heulwen. Ein dymuniadau gorau i chithau yn 2019.

Rydym mor falch o ddeall fod Menna yn cryfhau ar ôl ei thriniaeth fawr yn Aintree, Lerpwl. Rydym yn anfon ein cofion anwylaf atat, Menna.

Bydd y Clwb yn cyfarfod fore Iau, 4 o Chwefror am 10.30 yn Tŷ Golchi.

Eglwys Sant Mihangel.

Cynhelir gwasanaethau mis Chwefror yn Y Sefydliad Coffa: 3ydd Chwefror am 10.00 y bore 'Eglwys Café'.

17eg Chwefror am 10.00 y bore Cymun Bendigaid – efo tē neu goffi.

Plaid Cymru

Ennillwyr Clwb Cant mis Ionawr

1.. Meryl Green, Annedd Wen, Pontrug

2.. Dafydd Arfon Jones, 3 Minffordd

Diolch. Dymuna teulu y diweddar Merfyn Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Gyda diolch hefyd i'r parchedigion Gwynfor Williams, R.E. Hughes a Marcus Robinson am eu gwasanaeth, ac i Gwynfor Jones o gwmni E.W.Pritchard am ei drefniadau trylwyr ddiwrnod yr angladd. Rhannwyd cyfraniadau er cof rhwng Meddygfa Waunfawr a'r Gwasanaeth Ambiwylans Awyr Cymru.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Capel y Rhos

Roedd dwy o'n haelodau yn dathlu eu penblwydd yn 90 oed ar Ionawr yr 20fed. Llongyfarchiadau mawr i Miss Jane Jones, Tir Glas, Ceunant a'i hefaill Mrs Elisabeth Storey, Cerrig yr Afon, ar gyrraedd filltir go arbennig.

Oedfaon fis Chwefror

Chwefror 3 - Y Gweinidog Parch. Marcus Wynn Robinson
Chwefror 10 - Parch. Jane Evans

Chwefror 17 - Y Gweinidog
Chwefror 24 - Parch. R. O. Jones

Penblwydd hapus iawn i Rhydwen Pugh yn 70 oed ar Ionawr yr 18fed a Cyril Roberts, Minffordd Reras sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed - Llongyfarchiadau mawr.

Llongyfarchiadau i Emyr a Carina ar enedigaeth Mabli Fôn ar Ragfyr 37ain. Mae Lorna a Haydn, Talybont, yn nain a thaid am y tro cyntaf ac mae Mair Wyn, sydd wedi dod yn hen nain, wedi gwirioni hefyd. Mae Eryl ac Islwyn Roberts, Glanffynnon yn hen nain a thaid am y trydydd tro. Ganwyd Olivia Rose i Cara a Dean yn Sir Fôn. Llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Llongyfarchiadau i Lois Wiggins ar ennill gradd Dosbarth 1af mewn Nysio rhai gydag Anableddau Dysgu. Mae Lois yn gweithio rwan i Wasanaeth Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Ionawr 8fed, estynnwyd croeso

cynnes i bawb gan Bethanne a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda Fendithiol i bawb yn 2019. Cychwynnwyd y noson gyda Chàn y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau a darllenwyd llythyr calonogol gan Menna. Roedd pawb mor falch o glywed ei bod yn cryfhau yn ddyddiol a dymuna ddiolch i bawb am y caredigrwydd tuag ati ac am y llu cardiau sy'n golygu llawer. Mae'n edrych ymlaen at ymuno â ni yn y gwanwyn gan obeithio y bydd yn ôl ar ei beic fel 'Miss Marples'. Brysia'n ôl atom, Menna.

Llongyfarchwyd Myfanwy a Dic ar ddod yn or-nain a thaid i ferch fach Manon a Cefyn ar ddydd Nadolig, ac i fab bychan Cadi a Dan ar ddiwrnod olaf y flwyddyn 2018. Trafodwyd cynnal Caffi'r Urdd - bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ar Chwefror 12fed am 7.00yh.

Arlwy y noson oedd 'Brethyn Cartref'. Bu gan Julie a'i gŵr, Den, ddiddordeb mewn Celf a Chrefft erioed. Bu Den yn y Brifysgol a llwyddodd i gael gradd mewn adnewyddu dodrefn, gradd oedd yn golygu cymaint o sgiliau a gwybodaeth am wahanol grefftau gwaith coed, metel, lluniadau a pheintio, gwybodaeth am hanes a chemeg a dysgu sut i osod lledr a chŵyr Ffrengig - heb sôn am addurno dodrefn. Gyda'i gilydd roedd y busnes o arbenigo yn yr ochr gwaith coed o adnewyddu dodrefn yn cynnwys Cŵyr Ffrengig.

Daeth Julie â chadeiriau wedi'u hadnewyddu i'w dangos i ni. Un o'r prosiectau cyntaf oedd set o gadeiriau lle roedd angen trwsio a glanhau. Dangoswyd cadeiriau a stôl lle defnyddiwyd brwyn, corsennau o Indonesia a glaswellt môr (sea grass) o China i wneud yr eistedd a hynny mor gywrain.

Cadw maes carafannau oedd sgwrs Haf. Cafwyd caniatâd gan Gyngor Sir Gaernarfon gynt yn 1964 a pryd hynny prin iawn oedd y cyfleusterau angenrheidiol. Yr adeg honno dim ond nwy oedd ar gael, ond erbyn heddiw mae popeth ar drydan, wth gwrs. Mae cadw maes carafannau a phebyll yn golygu llawer o waith a hynny i safon Iechyd a Diogelwch. Mae'r gwaith papur yn llethol a'r gwaith cynnal a chadw yn ddiddiwedd. Carafannau statig ydynt i gyd a dros y blynyddoedd mae'r cyfeillgarwch efo'r perchnogion yn un hapus braf. Does dim siop na chlwb ar y maes gan fod rhai yn mwynhau ymweld â'r ardal brydferth yma, felly mae gyda'r nosau yn rhai tawel ac yn gyfle i ymlacio. Mae'r ymwelwyr yn dod o bob rhan o Brydain, nifer o'r Alban a de Lloegr a rhai o Wrecsam a'r Tymbl. Mae digon o arwyddion Cymraeg o gwmpas ac mae rhai wrth eu boddau yn dysgu ambell i beth yn ein iaith hynafol ni. Dymunir pob llwyddiant i Faes Carafannau Ty'n y Coed.

Yn dilyn sgysiau difyr Julie a Haf, cawsom gipolwg ar

ddatblygiad yr harbwr yng Nghaernarfon gan Pat. Mae Pat yn gweithio yng Ngwynedd gyda phrofiad o ddelio â grantiau, gwaith caled gyda amodau caeth, yn enwedig wrth benodi contractwyr. Mae Julie ynghlwm â dyletswyddau o edrych ar ôl yr harbwr yng Nghaernarfon. Rhaid chwilio am incwm gan nad oes cyfraniad gan y Llywodraeth. Am gyfnod o tua 150 o flynyddoedd bu'r cei yn brysur iawn. ond dengys y blynyddoedd diwethaf ddirywiad mawr. Gyda arian o Gronfa Menter a Threftadaeth y Loteri gobeithir achub adeiladau hynafol. Mae'r fenter wedi cychwyn ers mis Hydref a gobeithir agor yng ngwanwyn 2020. Bydd 19 o weithdai i wahanol grefftwyr a fflatiau gwyliau. Edrychir ymlaen i ymweld â'r fenter arbennig yma. Cawsom gyfle wedyn i symud ychydig gyda Bethanne, efo Siân ar yr acordion a Mair ar y piano. I alaw Pant Corlan yr Wŷn bu pawb yn croesi eu coesau gyda rhai yn cael hwyl dda arni. Roedd y baned yn eli i'r galon wedi hyn. Diolchwyd i Julie, Haf, Pat a'r offerynwyr am noson ddifyr dros ben.

Cynhelir Cinio'r Llywydd ar Fawrth 9fed, gyda phob dymuniad da i Meirwen. Cyflwynwyd blodau i Phyllis, Llywydd Anrhydeddus y gangen, ar ei phen-blwydd arbennig. Ar Chwefror 12fed cawn gwmni Dylan Arnold yn trafod Ffotograffiaeth.

AC ARFON SIÂN GWENLLIAN YN CEFNOGI'R YMGYRCH I DDOD AG EISTEDDFOD DDI-FFINIAU I GAERNARFON

Mae AC Arfon, Siân Gwenllian, yn datgan ei chefnogaeth i gais Caernarfon i gael cynnal Eisteddfod ddi-ffiniau heb dâl mynediad yn y dref yn 2021.

Meddai Siân Gwenllian: "Byddai cynnal yr Eisteddfod yng Nghaernarfon yn rhoi cyfle i bobol o bob man drochi eu hunain yn y diwylliant a'r iaith am wythnos gyfan a mwynhau'r holl elfennau mae'r ŵyl yn eu cynnig.

"Yn ddiweddar cynhaliodd Cyngor Tref Caernarfon gyfarfod cyhoeddus ynghylch y posibilrwydd o wahodd yr Eisteddfod i Gaernarfon yn 2021. Yn benodol, gweledigaeth y Cyngor Tref yw cynnal Eisteddfod led-debyg i'r un a fu yng Nghaerdydd eleni - hynny yw, eisteddfod "agored, ddi-ffiniau a chynhwysol", i'w lleoli'n bennaf ar strydoedd y dref heb dâl mynediad cyffredinol. Mae'r dref eisoes wedi dangos ei gallu i gynnal digwyddiadau mawr o'r fath yn sgil yr Wyl Fwyd hynod lwyddiannus sydd wedi'i threfnu yno ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r Cyngor Tref hefyd wrthi'n gwneud gwaith sylweddol i fapio lleoliadau posibl ac mae wedi dechrau gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer cynnal Eisteddfod stryd arfaethedig yn 2021.

"Credaf y gallai cynnal Eisteddfod agored yng Nghaernarfon fod o fudd mawr nid yn unig i'r Gymraeg yng Ngwynedd ond hefyd i sefyllfa'r iaith yng Nghymru benbaladr. Byddai gan Eisteddfod o'r fath rôl amlwg yn strategaeth y llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr gan gyflwyno'r Gymraeg fel iaith fyrlymus a byw yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Caernarfon yw Prifddinas y Gymraeg. Gyda 80%+ o'r trigolion yn siarad Cymraeg, dyma iaith fyw y stryd, y siop, yr ysgol a'r dafarn a byddai dod â'r Eisteddfod i'r dref unigryw hon yn dangos i weddill Cymru fod y Gymraeg yn ffynnu yn gymdeithasol ac yn economaidd."

Ychwanegodd Hywel Williams AS: "Mi fyddai dod ag Eisteddfod ddi-ffiniau i'r dre unigryw hon yn denu pobl newydd at yr iaith, yn creu profiadau newydd i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg o'r ardal hon ac o rannau eraill o Gymru sydd ddim yn cael y cyfle i glywed a gweld y Gymraeg yn fyw fel iaith gymdeithasol gwbl naturiol. Mae'n gyfle unigryw i bobl gael blas ar y Gymraeg fel iaith gymunedol ble mae pobol yn byw eu bywydau drwy gyfrwng yr iaith heb gwestiynu hynny."

Parfi Pendalar



Unwaith eto eleni cafwyd parti gwyh ar gyfer 115 o ddisgyblion Ysgol Pendalar. Diolch i holl waith disgyblion blwyddyn 12 llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian er mwyn talu am y parti hwn sef £2,000. Dangosodd y disgyblion flaengaredd wrth fynd ati i gasglu ac roedd y gwaith yn rhan o un o heriau'r Fagloriaeth Gymraeg a gwblhawyd yn llwyddiannus iawn ganddynt. Ar ddydd Mercher, Rhagfyr 19 felly aethpwyd ati i baratoi'r neuadd a'r danteithion ar gyfer y parti mawreddog. Cyrhaeddodd disgyblion Pendalar erbyn amser cinio i groeso mawr gan y staff a'r disgyblion a

daeth Gwilyn Rhys draw i gynnig adloniant ar eu cyfer. Diolch yn fawr iddo ef am fod mor barod i gyfrannu unwaith eto. Diolch hefyd i'r holl fusnesau lleol a gyfrannodd yn hael eleni eto tuag at gostau'r parti. Golygodd eu cyfraniadau bod pob un o'r 115 plentyn o Ysgol Pendalar wedi derbyn anrheg gan Sion Corn a'i gorachod. Yn olaf diolch yn fawr i'r staff a weithiodd gyda blwyddyn 12 ar ofalu bod y traddodiad o gynnal parti Nadolig yn Ysgol Brynrefail i ddisgyblion Ysgol Pendalar wedi ei gynnal yn llwyddiannus iawn unwaith eto.

Rasys Traws-gwlad

Perfformiadau gwyh yn y traws-gwlad a gafodd ei gynnal yn Ysgol Dyffryn Nantlle – nifer fawr o ddisgyblion wedi ennill eu lle yn Ffeinal Eryri yn Nolgellau Dydd Mercher Ionawr 30ain. Yr 8 uchaf ym mhob ras yn mynd drwodd: yr Ysgol yn ail yn y gystadlaeth.

Genethod Bl7
Isabelle Shaw 2il
Alaw Swyn 3ydd
Sophie Davey 6ed
Ela Branch 7fed
Bechgyn Bl7

Dion Edwards 3ydd
Ollie Teasdale 7fed
Genethod Bl 8 a 9
Efa Baines 1af
Mabli Baines 4ydd
Caitlin Forrest 7fed

Ceri Hickey
Bechgyn Bl 9 a 10
Huw Buck Jones 2il
Genethod Bl 9 a 10
Abbi Parkinson 3ydd
Georgia Parkinson 6ed

Chweched
Callum O'Donnell
Anna Thomas
Catrin Donnelly

Disgyblion blwyddyn 7 yn perfformio 'A Midsummer Night's Dream'



7 ran yng Ngŵyl Ysgolion Shakespeare. Rhoddodd hyn gyfle i 22 ohonynt actio rhan o ddrama Shakespeare yn Galeri, Caernarfon. Roedd yn gyfle i gwyh i bawb wneud ffrindiau newydd a dysgu sgiliau newydd megis datblygu hyder a sgiliau perfformio. Dechreuodd y cyfan gyda Diwrnod Shakespeare! Dysgodd y disgyblion ddefnyddio geiriau sarhaus Shakespeare, ysgrifennu eu sgriptiau eu hunain ac yna eu perfformio o flaen eu cyfoedion. Cawsant gyfle hyd yn oed i weiddi'n sarhaus ar Miss Samantha Gray a Mrs Catherine Bailey mewn brwydr eiriol! Wedi diwrnod gwyh arhosodd rhai o'r disgyblion ar ôl ar gyfer clyweliad i fod yn un o gast y ddrama.

perfformiad aeth y disgyblion i Galeri ar gyfer ymarfer llawn. Wedi ymarfer technegol aethom trwy'r perfformiad cyfan. Gwnaed ychydig o gamgymeriadau ond roedd pawb yn sylweddoli bod raid i'r sioe fynd yn ei blaen! Awr cyn y perfformiad dechreuodd pawb roi eu gwisgoedd amdanynt a chael color. Roedd yr ystafell newid yn llawn gliter a sprê gwallt! Roedd y disgyblion wedi cyffroi'n llwyr pan ddechreuodd y perfformiad! Bob tro deuai rhywun oddi ar y llwyfan roeddent yn cael cwtsh gan weddill y cast. Roedd yr awyrgylch yn fendigedig ac yn gefnogol iawn. Aeth y perfformiad yn wych! Mwynhaodd pawb y profiad, yn enwedig y gynulleidfa.

Casgliad Banc Bwyd Ysgol Brynrefail



Ym mis Rhagfyr anfonwyd 131.4kg o fwyd i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Mae hyn yn ddigon i fwydo 13 teulu yn lleol am wythnos. Diolch o galon i'r holl ddisgyblion gefnogodd yr ymgyrch yma ac i Mrs Catherine Bailey am drefnu'r cyfan.

Tim Pel-rwyd Bl7/8



Fe berfformiodd tim Pel-rwyd Bl7 ac 8 yn arbennig o dda yn nhwrament Gogledd Cymru ar ddechrau Ioawr gydag ugain ysgol yn cystadlu, a hynny'n golygu dros 200 o chwaraewyr. Enillodd Ysgol Brynrefail eu grwp gyda'r canlyniadau yma:
 Brynrefail 15 - Bro Idris 0 Brynrefail 6 - Yr Alun 6
 Brynrefail 15 - Tryfan 1 Brynrefail 12 - Glan Clwyd 4
 Aeth Ysgol Brynrefail ymlaen i gystadleuaeth y Gwpan gan guro Ysgol Friars yn y rownd go gyn derfynol : Brynrefail 11 - Friars 4
 Yn anffodus colli fu hanes y tim yn erbyn Ysgol Maes Garmon, Brynrefail 6 - Maes Garmon 9.
 Llongyfarchiadau mawr i Beca Parry am ennill chwaraewraig y twrament gan y dyfarnwyr i gyd.

Dathlu ymddeoliad



Llongyfarchiadau i Hugh Wyn Griffiths, Brynteg, ar ei ymddeoliad o Gyngor Gwynedd ar Ragfyr y 7fed, 2018. Arolygwr Priffyrdd yn ardal Dyffryn Ogwen oedd Hugh, ac yn aelod poblogaidd iawn o'r tîm. 'Roedd wedi gobeithio cwblhau 50 mlynedd o

wasanaeth i'r Cyngor, cyn ymddeol, ond, oherwydd cyfnod byr o salwch ac, efallai, y pleser o gynorthwyo gyda gwarchod ei wyrion, fe benderfynodd Hugh ymddeol yn gynt, gyda 48 ½ blwyddyn o wasanaeth gyda'r Cyngor!

Cymdeithas Undebol Capel Coch

Bydd cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas yn cael ei gynnal yng Nghapel Coch am 7 o'r gloch, Nos Fawrth Chwefror y Sed, pryd y bydd Gwen Jones yn sôn am "Mari Lewis".

Diochiadau Dymuna Elizabeth Jones, Balaclava, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn

Ysbyty Gwynedd ac ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch i'r meddygon a phawb sy'n gweini yn Ward Tegid. a hefyd i Feddygfa Llanberis a'r Nyrsys Cymunedol sy'n dod i'w gweld bob dydd yn rheolaidd.

Grŵp Pentref Tacus. Bydd y cyfarfod nesaf i gasglu sbwriel ar ddydd Sul, 24ain o Chwefror. Cyfarfod o flaen siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr am ddeg y bore. Croeso cynnes i bawb ddod draw i gynnig help llaw.

Estyn yn cadarnhau bod Ysgol Dolbadarn yn 'rhagorol'

Mae arolwg diweddaraf gan gorff arolygu ysgolion Estyn wedi cadarnhau bod Ysgol Gynradd Dolbadarn yn Llanberis wedi sicrhau'r radd uchaf posibl.

Yn dilyn eu hymwelriad a'r ysgol yn ystod tymor yr Hydref, mae Estyn wedi dyfarnu y radd uchaf un posibl, sef Rhagorol, i bob un o'r pum maes arolygu. Mae hon yn gamp arbennig iawn, un o'r ychydig ysgolion cynradd yng Nghymru i sicrhau gradd 'Rhagorol' y llynedd.

Dywedodd y Cyngorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd: "Mae hyn yn newyddion ardderchog ac yn dyst i waith cyson a chaled plant, staff, llywodraethwyr a chymuned ehangach yr ysgol. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n cyfrannu tuag at wneud yr ysgol hon mor llwyddiannus."

Yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Estyn yn cydnabod bod gan yr ysgol 'arweinyddiaeth gadarn' a bod gan 'arweinwyr ddisgwyliadau uchel iawn sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl'. Maent yn nodi hefyd bod disgyblion yn 'dangos balchder amlwg yn eu hysgol' a'u bod yn gyfeillgar, ystyriol ac yn cyflawni'n dda.

Meddai Pennaeth Ysgol Dolbadarn, Gareth Fôn Jones: "Yn sicr fel pennaeth rwyf yn ymfalchïo yn yr adroddiad ganmoladwy gan Estyn. Mae'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o waith caled yr holl staff sy'n ymwneud â hi, heb anghofio'r disgyblion.

Ceir partneriaeth adeiladol gyda'r corff llywodraethol sy'n allweddol i gynnal ysgol lwyddiannus yn unol â chefnogaeth y rhieni. Mae'r adroddiad wedi dod a balchder i ni fel tim sy'n rhoi o'n gorau er budd y disgyblion."

Mae Estyn yn nodi'n benodol bod llais y disgybl yn elfen gref iawn o waith yr ysgol, a bod disgyblion yn cael bod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau ac yn cael cyfleoedd cyfoethog i fynegi barn ac i gyfrannu tuag at wahanol agweddau o waith a chymuned yr ysgol. O ganlyniad bydd Ysgol Dolbadarn yn cael ei gwahodd i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith arbennig yn y maes yma.

GWASANAETHAU CAPEL COCH

CHWEFROR	2ydd 10yb PARCH. HARRI PARRY
"	10fed 10yb a 5yh Y GWEINIDOG
"	17eg 10yb PARCH CATH WILLIAMS
"	24ain 10.30yb OEDFA DEULU
MAWRTH	3ydd 10yb MRS NERYS GRIFFITH
"	10fed 10yb a 5yh Y GWEINIDOG
"	17eg 10yb MR HUW TEGID ROBERTS
"	24ain 10.30yb OEDFA DEULU
"	31ain 10yb MR DAFYDD IWAN

Awdures a Golygydd o Lanberis

Gyda diolch i John Roberts, Stryd Goodman, Llanberis am anfon y wybodaeth am Ceridwen Peris; merch flaengar iawn yn ei chyfnod.

Ganed Alice Gray Jones yn Llanllyfni ym mis Rhagfyr 1852, yn ferch i David ac Ellen Jones. Roedd ei thad yn frawd i'r Parch John Jones, Brynrodyn, a'i mam yn gyfnither i Iolo Caernarfon. Symudodd y teulu i fyw i Lanberis, ac yno y cafodd Alice Gray ei haddysg, yn Ysgol Dolbadarn. Tra'n byw yn Llanberis daeth dan ddylanwad ei gweinidog, Ieuan Gwyllt. Derbyniodd ei haddysg bellach yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe, a dychwelydd i Lanberis yn brifathrawes ar ei hen ysgol. Yn 1881 priododd y Parch William Jones, gweinidog Y Ffôr. Bu iddynt bedwar o blant. Yn Llanberis roedd hefyd yn arweinydd Y Gobeithlu, a dechreuodd ysgrifennu dan yr enw Ceridwen Peris.

Yr oedd yn un o sylfaenwyr Undeb Dirwestol Merched Gogledd Cymru, ac fe'i hapwyntiwyd yn drefnydd yr Undeb hwnnw yn 1895. O 1896 hyd 1919 bu'n olygydd Y Gymraes, cylchgrawn i ferched. Ysgrifennodd nifer o werslyfrau ar gyfer yr Ysgol Sul a thraethodau dirwestol. Cyfieithodd hefyd y ddrama 'Britannia' gan Alice Williams. Roedd yn cyfrannu'n gyson i'r 'Frythones', ac yn awdur nifer o lyfrau i blant. Yn 1934 cyhoeddwyd cyfrol o'i barddoniaeth, 'Caniadau Ceridwen Peris'. Bu ganddi ran helaeth hefyd ynglŷn â sefydlu Cartref Treborth, ger Bangor, a bu'n weithgar ar amryw o bwyllgorau.

O'r Ffôr symudodd i fyw i Gricieth yn 1919, ond bu farw ym Mangor, yng nghartref ei merch yn 1943.

(Mae achau'r teulu i'w gweld ar dudalen 143 o lyfr Ceiri Griffith "Achau rhai o deuluoedd hen siroedd Cawernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn".)



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllïan@cynulliad.cymru

Tylluanod - R. Williams Parry

Y PENNILL CYNTAF

Bu R. Williams Parry yn athro yn Ysgol Sir Brynrefail o 1908 hyd 1910, ei swydd gyntaf. Mae'n debygol y byddai'n croesi Pont Pen Llyn yn aml. Dyma'r bont sydd ar derfyn gwaelod Llyn Padarn cyn llifo i Afon Rhythallt ac yna Afon Saint (Seiont i rai) cyn cyrraedd Caernarfon a Chulfor Menai.



'Pan fyddai'r nos yn olau a llwch y ffordd yn wyn a'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr difwstwr ym Mhen Llyn,



Y tylluanod yn eu tro, Glywid o Lwyncoed, Cwm y Glo.'

Mae pedwar o benillion yn y gerdd. Sonnir am Llyn y Ffridd, Ffridd y Llyn, Afon Glaslyn ac Ynysfor. Beth am chwilio ble mae y rheiny? Dyma linc i'r gân gyda Tara Bethan yn canu:
<https://www.youtube.com/watch?v=x7zBLrwdy8>



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Cyflwyniad i ardd synhwyrâu



Efallai i chi weld ar Heno, ddirprwyaeth o aelodau Grwpiau Merched y Wawr Arfon yn ymweld ag Ysbyty Gwynedd. Fel rhan o ddathliad y mudiad yn 50 oed yn gynharach, roedd Rhanbarth Arfon yn cyflwyno mainc. Fe osodir y fainc yn yr Ardd Synhwyrâu sy'n gysylltiedig â'r adran sy'n ymdrin â dioddefwyr Dementia. Mae'r ardd yma yn elfen bwysig gan roddi cyfle i'r dioddefwyr ymlacio mewn awyrgylch naturiol ac eto yn tanio y synhwyrâu. Fel y gwelir o'r llun roedd rhan helaeth o'r ddirprwyaeth yn gysylltiedig a grwpiau Bro'r Eco ac yn dal swyddi cenedlaethol a rhanbarthol.

Elfen lleol arall oedd mai gweithwyr yn Menter Fachwen oedd wedi cynllunio ac adeiladu y fainc hardd.

Yn y llun gwelir : Meirwen Lloyd, (Llywydd Cenedlaethol), Mary Roberts (Llywydd Rhanbarth), Pat Jones (Trysorydd Rhanbarth), Beth-anne Williams (Llywydd Llanrug), i gyd o Gangen Llanrug; ac Anne Elis (Ysgrifennydd Cenedlaethol), Mair Price (Ysg. Rhanbarth) a Gwyneth Jones (Is-lywydd Rhanbarth) o Gangen Bethel.

Capeli 1919-2019



Rhu'r gwynt sy'n taro'i gyntedd, - yno mud
seiniau mawl a'u tonfedd.
O le byw, distaw fel bedd
yw'r Eban di-arabedd.

Daw'r heth hyd seddau Bethel – i aros,
o dorri sawl cwarel.
Â'i urddas heddiw'n arddel
hen dân saint yno dan sêl.

Hael ydoedd Tŷ Elidir – a Saron,
criw'r Saer adleolir.
Nid y Tŷ, os hadu tir
yd yfory adferir.

Pa enwad? Pa wahaniaeth? –er ymlâdd,
eir ymlaen drwy'r hiraeth.
Y mae Ef yn cynnig maeth
i'w deulu, rhown dystiolaeth.

Richard Llwyd Jones

Bardd Du Eryri

(1755 - 1828)

Mab i Thomas Williams, Cwmglas Mawr, Nant Peris, Llanberis oedd Abraham Williams (Bardd Du Eryri). Nid oedd neb yn rhagori arno am ddringo creigiau ysgythrog Nant-yr-Orffwysfa pan oedde fynllanc. Yn bedair ar bymtheg mlwydd oed derbyniodd ychydig o addysg dan hyfforddiant y Parch John Morgan (1743-1801), curad yn Eglwys Sant Peris, a bu'n gyn-ddisgybl ac yn gyfaill mynwesol gyda Dafydd Thomas (Dafydd Ddu Eryri, 1760-1822). Ond bu'n rhaid i Abraham, Cwmglas Mawr, ymadael â'i fro i fynd i weithio i chwarel y Penrhyn, ym Methesda. Ar ôl hynny ymsefydlodd yn Gwaun-y-gwial, Llanllechid. Ymhen ychydig amser wedyn rhoddodd Cymdeithas y Cymmrodorion, Llundain, dipyn o sylw i'r traddodiad yn ymwneud â Thywysog Madog a'i gyfeillion yn hwylio i'r America. Pryd hwnnw, taniwyd brwdfrydedd nifer o Gymry llengar ardal Arfon i anturio dros yr Iwerydd i chwilio am ddisgynyddion Madog, gan gynnwys rhai fel John Williams, Waunfawr; Dafydd Ddu, Griffith Williams (Gutyn Peris), Hafod Olau, Waunfawr ac Abraham Griffith Williams ei hun. Dyma'r cyfnod pan oedd y fasnach lechi yn dechrau datblygu rhwng Bangor a'r Unol Daleithiau. Gwnaeth Abraham a'i wraig drefniadau i gychwyn ar eu taith o'r cei ym Mangor, gan ddisgwyl i Dafydd a Gutyn i'w dilyn, ond cawsant eu siomi. Torrodd Dafydd Ddu ei galon a chytunodd Gutyn Peris i briodi yn y cyfamser, fel bod yn rhaid i Abraham fynd ei hun, yn drwm ei galon ac yn llaith ei ruddiau, tra y safai Dafydd a Gutyn yn eu dagrau ar y lan i ffarwelio ag ef.

Yn 1793 glaniodd yn Philadelphia, Pennsylvania, gyda'i ail wraig a'u plentyn pum mis oed, sef Thomas, yr un enw a'i daid. Ymhen amser symudodd i Efrog Newydd, lle y bu ei wraig farw yr haf hwnnw o'r clefyd melyn. Oddi yno gadawodd am Sir Essex, New Jersey, ac yno yn 1798 priododd â Judith Decer, merch o'r Iseldiroedd, yno hefyd y ganwyd Rowland, eu mab. Cyn iddo ef ymfudo addolai Abraham gyda'r Bedyddwyr, ond oherwydd nad oedd yna achos gyda'r enwad hwnnw yn Sir Essex, ymunodd ef a'i wraig gyda'r Wesleaid.

Ar ôl geni Rowland, y mab, symudodd i Dorrance, Sir Luzerne, Pennsylvania, tref nodedig am ei choedwigoedd y pryd hynny. Prynodd ychydig o dir yno a gwnaeth argau i gronni llyn, a hefyd troell i droi ffyn cadeiriau, ac yna gwerthai hwy yn y trefi cyfagos. Yn Dorrance y ganwyd gweddi ei blant. Priododd un ohonynt, sef Thomas, a bu'n cadw storfa ac yn Ynad Heddwch yn Nanticoke, yn yr un sir. Bu farw yn Iowa. Y plant eraill a anwyd yn Dorrance oedd Catherine, Sian, Judith, Joseph, Sinton, Lemuel, Mary, Hiram ac Abraham. Gwnaeth Abraham, y tad, un symudiad arall yn 1816, y tro hwn i Grist Flats, Sir Wyoming, Pennsylvania, sir lle yr oedd digonedd o weithfeydd glo a haearn, wedi ei lleoli ar ochr orllewinol yr afon Susquehanna (747km o hyd), lle y prynodd hanner can erw o dir. Gwnaeth weithdy iddo i hun tebyg i'r un oedd ganddo yn Dorrance, lle bu'n dilyn ei waith am ddeng mlynedd. Aeth y gweithdy hwnnw ar dân a llosgwyd y cwbl o'r eiddo.

Bu Abrahams farw ar Ragfyr 27 1928, yn 73 mlwydd oed a'i gladdu mewn mynwent rhyw ddwy filltir o'i gartref. Aeth Judith, ei weddw, i fyw at Rowland, ei mab, gan gludo gyda hi holl lyfrau ac ysgrifau ei phriod. Yn 1854 aeth tŷ Rowland ar dân a llosgwyd y cyfan, fel y collwyd holl waith Bardd Du Eryri. Yn ŵr ifanc yr oedd yn neilltuol o gelfydd a dihefydus, ac yn barddoni ers pan oedd yn blentyn. Yr oedd wedi meistrolï rheolau barddoniaeth Cymraeg yn drwyadl, ac wedi casglu llawer iawn o lyfrau diwinyddol a rhai yn ymwneud â gwahanol gelfyddydau.

Un o'i gerddi mwyaf poblogaidd oedd 'Cywydd yr Adfail' a gyfansoddwyd ganddo mewn coedwig dywyll ar lan y Susquehanna, Medi 30 1819, yn ei flynyddoedd olaf. Dywed y bardd Alun Llywelyn-Williams (1913-88) amdano 'Bu'n weddol llwyddiannus yn yr Amerig fel saer, a bu farw yn dra chrefyddol, mewn lle o'r enw Grist Flats. Deth rhyw si i Gymru ei fod ef wedi marw rhai blynyddoedd ynghynt, ac ysgrifennodd ei hen gyfaill Gutyn Peris farwnad iddo yr adeg honno, a chafodd Abraham felly ddarllen ei farwnad ei hun. Cyfansoddodd yn ateb iddi 'Cywydd yr Adfail' sydd yn adrodd fel yr oedd pethau arno mewn gwirionedd yn bur llogach...'

Ydwyf gandryll hyll a hen,
Fe rewodd y fer awen;
Cwla iawn ddrych, mae'r clyw'n ddrwg
A gwaelaidd yw y golwg;
Pallodd encilioedd y cof,
Du wedd ing, deuodd angof;
Y troed fu 'rioed ar redeg...

W Arvon Roberts, Pwllheli.

Gwaith Ymchwil gan Dîm Gwesty Aduniad S4C

Mabwysiadwyd Taith gan rieni maeth o ogledd Cymru yn fabi bach blwydd oed. Roedd y daith iddynt yn 5,000 o filltiroedd i ddod â hi i'w chartref newydd ar Ynys Môn. Galwyd hi yn Taith i gofio'r siwrne hir.

Erbyn hyn mae Taith yn un ar hugain oed, yn byw yn Lerpwl ac yn astudio yn y coleg yno. Ei gobaith pennaf oedd dod o hyd i'w mam waed, Lucia Perez Morales, o Guatemala, cael gwybod pwy yw ei theulu ac iddynt hwythau wybod ei bod hi yma. Cysylltodd Taith a'i thad maeth, David Williams, Parc, Waunfawr, ond sydd bellach yn byw yn Llundain, â Gwesty Aduniad, sydd yn raglen ar S4C, yn y gobaith o gael eu cymorth i ganfod ei mam waed. Gwyddai Taith a'i theulu yma yng Nghymru a thîm Gwesty Aduniad mor anodd fyddai dod o hyd i'w mam gan fod stigma o hyd o gwmpas rhoi plant i'w mabwysiadu yng Nguatemala. A hyd yn oed pe baent yn llwyddo efallai na fyddai Lucia eisiau cysylltu â Taith.

Rodrigo Montufar oedd y cyfreithiwr a ymgymerodd â'r gwaith ymchwil ar ran Gwesty Aduniad a daeth o hyd i dystysgrif a ddaeth â thristwch mawr i bob un ohonynt.

Roedd breuddwyd Taith o gael cyfarfod â'i mam wedi ei chwalu'n deilchion. Roedd wedi colli ei bywyd mewn damwain car ddeng mlynedd yn ôl. Ond daeth tystysgrif arall â gobaith, tystysgrif geni Carolina, hanner chwaer i Taith. Gwyddai Taith fod ganddi chwaer yn Guatemala ond ni wyddai Carolina am fodolaeth Taith. Bu cysylltiad rhwng y cyfreithiwr a'r chwiorydd a threfnwyd i Carolina a Nery, cefnder i'r ddwy chwaer, ddod yma i Westy Aduniad i gyfarfod â Taith. Roedd ganddynt lun o'i mam i'w roi iddi. Roedd David, ei thad, a Pearl, nain Taith, yn y cyfarfod teimladwy bythgofiadwy hwnnw, ble roedd y cyfieithydd yn egluro i Taith fod tebygrwydd rhyngddi hi â'i mam, y ddwy fel ei gilydd yn mwynhau coginio a darllen a phaentiair ddwy eu hewinedd yn yr un lliwiau.

"Rwyf am ddysgu'r iaith Sbaeneg fel y gallaf sgwrsio â'm teulu ac mae dad a finnau am drefnu taith i Guatemala i'w gweld," meddai Taith. Mae taid Eurwyn a nain Pearl Waunfawr yn hynod o falch drosti ac yn diolch i dîm Gwesty Aduniad, y cyfreithwyr a'r cyfieithydd am eu hymroddiad a'u gwaith anodd i wireddu breuddwyd Taith. Diolch o waelod calon.



Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr oedd £30: Irene Roberts, Pant Teg (225); £20: Sali Burns, Tŷ Capel (48); £10: Nan Huws Roberts, Madryn, Caeathro (36).

Enillwyr mis Ionawr oedd: 330: Emsul Jones, 15 Bro Waun (254); £20: Dylan Jones, Eryri Wen (63); £10: Zoey Aindon, Sŵn y Gwynt (104).

Rhai â chysylltiad â'r Pentref Yn ystod y Nadolig bu llawer o raglenni ar Sianel S4C ac yn wir roedd yna rai yn cymryd rhan sydd â chysylltiad â'r pentref. Tra'n gwylio Sioe Nadolig Ysgol Hafod Lon gwelsom Guto Tegannedd yn mwynhau cymryd rhan yn y canu a dweud jocs, a'i fam a'i dad yn y gynulleidfa.

Cefnogi disgyblion Ysgol Tregarth mewn cystadleuaeth yn erbyn disgyblion un o ysgolion Bangor ar yr Awr Fawr oedd Cerys, Nant y Mynydd, eu hathrawes.

Ar y rhaglen Taith Bryn Terfel fe alwodd gyda Chôr Rhuthun, ac yno y gwelsom Alaw, Rhandir Mwyn, sy'n aelod o'r côr ers tro byd. Yna galwodd yn y Philharmonic Hall Lerpwl ble roedd Côr Cymry Lerpwl yn ymarfer a gwelsom ddwy sydd â chysylltiad â'r Waun, sef Eryl, Bryn Gwenallt a Wenna, sydd yn chwaer i Siân, Tŷ Ysgoldy.

Noswyl Nadolig cawsom gyfle i weld ail hanner cyngerdd Côr Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a Cherddorfa Welsh Pops yn cyflwyno trefniant roc newydd sbon o Teilwng yw'r Oen. Meilir Gwynedd, un arall o hogiau'r pentref, sydd wedi addasu'r gerddoriaeth. Dywedodd Meilir

'Mae nifer o arddulliau yn y sioe o roc trwm... soul ac ambell dwtsch o'r felan. Does dim ffiniau yn Eisteddfod y Bae eleni ac mae'r un peth yn wir am y sioe yma hefyd.'

Un o aelodau balch y côr oedd Nia (Rhoslan) ac roedd Fflur yn un o'r gynulleidfa enfawr yng Nghanolfan y Mileniwm ar y noson. Ar un o raglenni

Prynhawn Da cafodd un o gyn-athrawon yr ysgol dipyn o syrpreis pan gerddodd i mewn i Ganolfan Bontnewydd a chael ei chyflwyno yn 'Halen y Ddaear'. Cyflwynwyd plât hardd i Mrs Eurgain Eames am ei gwaith diflino yn arwain Côr Dyffryn Nantlle am dros ugain mlynedd. Gellir gweld yr eitem drwy fynd yn ôl i Prynhawn Da 14.1.2019.

Un arall a welwn yn aml ar y teledu o hyn ymlaen yw Elen Wyn, Bodridan, sydd yn un o gymeriadau newydd Rownd a Rownd.

Gwrandd ar Radio Cymru noson dydd Calan ar raglen Geraint Lloyd a'r eitem 'Ar y Map'. Bu Michael, Tan y Coed, Stad Bod Hyfryd, yn sgwrsio ac yn trafod tri cliw 'Mae rhif yn enw'r pentref, mae na fenter yn y pentref ac mae na fynydd siâp anifail'. Daeth Waunfawr yn bentref trafod. Cafwyd sgwrs ddiddorol am hanes sut oedd y pentref a sut mae pethau wedi datblygu yma erbyn hyn a Michael yn cofio yn dda iawn!

Gwasanaeth Gwynnos y Nadolig Mae bod yng nghynulleidfa y gwasanaeth Gwynnos y Nadolig yn ein rhoi yn naws y Nadolig. Noson o gyd-ganu carolau, gwrandd ar unigolion a phartion yn canu a llefaru, rhai yn cymryd rhan am y tro cyntaf eleni. Diolch i bob un, ac i Mererid Llwyd a Gwenda Griffith am drefnu'r gwasanaeth eto eleni. Cyflwynwyd yr arian a gasglwyd ar derfyn y gwasanaeth i gronfa Syrjyri Liverpool House.

Diolch a Llongyfarch Dyma yw dymuniad rhieni disgyblion yr ysgol wedi iddynt fwynhau'r Sioe Nadolig. Pob plentyn wedi gwneud ei orau ac wedi cael pleser o gymryd rhan yn actio, llefaru a chanu **Babanod Bach Newydd** Daeth Cadi a John Gwynedd, Nant, yn nain a thaid i wŷr bach newydd. Ganwyd mab, Owi Gwynedd Siôn i Heddu ac Iwan, brawd bach i Mali ac Anni, sydd wrth eu bodd efo'u brawd bach.

Merch fach, Mali, a anwyd i

Elin, Stad Tref Eilian. Mae Mali yn chwaer fach i Deian ac Iwan, sy'n falch iawn ohoni.

Ganwyd merch fach, Mabli Fôn, i Carina ac Emyr sydd wedi ymgartrefu yn Llys Seibiant yma yn y Waun. Croeso cynnes i'r fechan a'i rhieni yma a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Llongyfarchiadau i Meg Elis ar ddod yn nain eto. Ganwyd mab bach i Llifton a'i gymar mewn ysbyty yn yr Almaen. Cefnder bach newydd i Sioned.

Llongyfarchiadau i'r pedwar teulu, mae amser braf a diddorol o'ch blaen gyda'r rhai bach. **Rhoddion blwyddyn newydd gwerth eu cael.**

Newid Aelwyd Dymunwn yn dda i Diane a'r hogia sydd wedi newid aelwyd yn y pentref ac yn setlo'n dda.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Diane a Mark ar eu dyweddïad.

L l w y d d i a n t Llongyfarchiadau i Rosie Brown, 2 Ael y Bryn, ar ennill Gradd Meistr yn eu hastudiaeth o'r pwnc Drama a Chelf Perfformio ym Mhrifysgol Caer.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Callum Hanks, Stad Dôl Erddi, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 21 mlwydd oed ychydig ddyddiau wedi'r Dolig. Rwy'n siŵr i ti fwynhau'r dathlu.

Adref o'r Ysbyty Cyn dydd Nadolig cawsom groesawu Llywela Davies, Stad Tref Eilian, adref wedi iddi dderbyn gofal mewn ysbyty yn Lerpwl.

Hefyd croesawyd Dilys Griffith, Stad Tref Eilian; Karen Morris, Bryn Celyn ac Eurig Wyn, Y Fenni, adref o Ysbyty Gwynedd wedi iddynt dderbyn gofal yno. Dymunwn wellhad buan i'r pedwar ohonoch.

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn ddwys â Eifion a'i gymar, Iona, Llys Morfudd, Pant Defaid, yn eu profedigaeth o golli Eryl Ogwen, chwaer annwyl i Eifion.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Ioan a Pegi Talfryn a'r plant, Yr Hen Bost, yn eu profedigaeth o golli mam Ioan, mam yng nghyfraith Pegi a nain annwyl i'r plant.

Sefydliad y Merched Pan ddaw'r rhifyn yma o'r Eco o'r wasg bydd mis cyntaf y flwyddyn 2019 wedi mynd heibio a bydd aelodau Cangen y Sefydliad wedi mwynhau eu cyfarfod cyntaf.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar y 3ydd o Ionawr. Croesawodd y Llywydd, Catherine, yr aelodau, gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cyfeiriodd at Joy, oedd wedi bod yn yr ysbyty cyn y Nadolig ond erbyn hyn yn gwella ychydig. Gobeithio y bydd yn ddigon da i ddod yn ôl yn fuan. Cyflwynodd Catherine y wraig wadd am y prynhawn, sef Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg. Ar ôl arddangos rhai o'r crefftau hyfryd yr oedd wedi eu gwneud ers blyneddoddd, rhai er pan oedd yn ifanc iawn, cafodd yr aelodau gyfle i wneud cas am lyfr nodiadau personol. Roedd rhain yn edrych yn hyfryd iawn a phawb yn falch eu bod wedi cael cystal hwyl ar y gwaith!

Diolchodd Pat i Gwenda am bnawn diddorol iawn. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Pat, gan Cherry. Y mis nesaf John Grisdale o Gaernarfon fydd yn sôn am ei waith fel un o Dim Achub Mynydd Llanberis.

Merched y Wawr Mae aelodau'r gangen wedi cyfarfod am ei gweithgaredd cyntaf y flwyddyn nos Iau, Ionawr 24, yn y Ganolfan, sef 'Mapio Hanes Lleol Waunfawr' gyda Gareth Roberts. Cadi oedd yn diolch am y 'siwrnai ddiddorol' ac i Janet a Shirley am baratoi y baned a'r raffl.

Nos Iau, Chwefror 28, byddwn yn cyfarfod yn yr Antur ac yn mwynhau dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Dymunaf ddiolch am bob cymorth a gefais tra'n casglu'r newyddion i'r rhifyn hwn o'r Eco. Nan

Sion Rhys Jones

Ar Fedi 27, bu farw Sion Rhys Jones, Penrhos, Waunfawr yn 82 mlwydd oed. Ganed Sion ar y pedwerydd ar bymtheg o Fai, 1936, yn fab i John a Mary Awstin Jones, perchnogion siop a becws yn y pentref. Roedd yn frawd i Carrie, Rheon, Gwilym a'r ddiweddar Eluned.

Un o 'Fegainfs' y Waun yn sicr oedd Sion, ac un â'i galon a'i wreiddiau yn ddwfn yn y pentref. Wedi gadael yr ysgol yn bymtheg oed aeth i goleg hyfforddi Cei Conna am gyfnod o chwe mis i ddilyn cwrs mewn trydaneg, cyn symud yn ddiweddarach i fwrw prentisiaeth yng Ngorsaf Bŵer Clarence Dock yn Lerpwl. Tra yn Lerpwl, dioddefodd anffawd i'w lygaid ac, o ganlyniad, a chyd diffyg golwg yn amharu ar ei waith, rhaid oedd iddo roi i fyny'r cwrs a dychwelyd yn ôl adre i weithio gyda'r teulu yn y siop a'r becws. Drwy ddanfôn bara allan yn y fan daeth i adnabod llu o bobl yr ardal ac adwaenid ef yn lleol fel Sion Bara. Yn ddyn crwn ei ddiddordeb ymddiddorai mewn sawl gweithgaredd, gyda byd natur, arlunio ac yn enwedig pysgota yn rhai o'i brif ddiddordebau. Treuliai lawer o'i amser hamdden yn pysgota ar lannau afonydd Gwyrfa, Llyfni a Llyn y Gadair a go anaml y gwelid ef yn dod adre heb wyniedyn, a hwnnw'n un go nobl.

Roedd o gorrffolaeth gref ac er ei fod wedi bod yn dioddef o glefyd y siwgr er pan yn 16 oed, llwyddodd i fyw bywyd llawn ar hyd y blynyddoedd. Roedd yn nofiwr gyda'r gorau ac roedd y gamp anferthol a gyflawnodd ef a'i ffrind, Oscar Evans, drwy nofio ar draws Llyn Cwellyn pan yn lanciau ifanc, yn anhygoel. Roedd cerddoriaeth hefyd yn rhan bwysig o'i fywyd. Roedd yn aelod brwdfrydig o Seindorf Arian y Waunfawr yn y chwedegau cynnar a pan fyddai'n ymarfer adre yn y parlwr, byddai'r nodau dwfn o'r Iwffoniwm Bb i'w clywed yn atseinio'n uchel drwy'r tŷ. Roedd Sion yn gitarydd ardderchog a bu'n aelod o sawl grŵp pop dros y blynyddoedd. Y grŵp cyntaf iddo ymuno â hwy oedd y 'Sbwdnic Sgiff Grŵp' a ffurfiwyd tua'r flwyddyn 1957. Tri o hogiau lleol oedd rhain, yn canu caneuon rhai fel Tommy Steele a Lonnie Donegan, ar lwyfannau Neuadd yr Eglwys a'r Noson Lawen yn y festri. Aelodau'r 'Sbwdnics' bryd hynny oedd Sion ar y gitâr, Bob Owen, Pant Gwyn, ar y 'washboard' a John Hughes, Dol Erddi ar y dwbl bâs, gist de. Yn dilyn y 'Sbwdnics' ffurfiwyd y 'Falcons' cyn newid yn ddiweddarach ym 1962 i'r 'Valiants' (Y Glewion). Roedd y 'Valiants' yn grŵp ardderchog ac, fel grwpiau poblogaidd eraill y cyfnod, fel yr 'Anglesey Strangers', 'Y Jets', a 'Dino and the Wildfires' byddai galw mawr am eu gwasanaeth i gynnal dawnsfeydd ac ymddangos mewn cyngherddau mewn sawl neuadd a gwesty. Aelodau'r 'Valiants' oedd Derek Egan (prif leisydd a gitâr flaen), Sion (gitâr fâs), Gwilym Williams (gitâr rhythm) a Brian Roberts (drymiau). Arferai'r hogiau ymarfer gyda'r nosau yn y becws a byddai twr o blant y Waun wedi ymgasglu oddi allan i wrando a syllu arnynt trwy'r ffenestri. Byddai'r sŵn byddarol o'r becws i'w glywed o bellter, a sawl un glywyd yn y siop y bore wedyn yn cwyno a dweud y drefn am "Y ffashiwn dwrw!" neu bod "Talcan y tŷ cw yn crynu, fel tasa na ddaeargryn!"

Ar gyfer nosweithiau'r perfformiadau cludwyd yr offerynnau yng nghefn y fan fara, a byddai Sion wedi gofalu tynnu'r silffoedd

a glanhau'r briwsion cyn rhoi planced ar y llawr, i orwedd ac arbed y gitarau a'r drymiau. Dyma gyfnod euraidd y Beatles ac yn sicr un o uchafbwyntiau'r 'Valiants' oedd cael rhannu llwyfan gyda mawrion fel Gerry and the Pacemakers a'r hynod ecsentrig Screaming Lord Sutch. Yn ogystal â dawnsfeydd a chyngherddau, ymddangosasant ar raglen deledu Heddiw ac hefyd cynrychioli Sir Gaernarfon ar raglen radio Sêr y Siroedd. Wedi i'r 'Valiants' ddod i ben ym 1965, ymunodd Sion gyda grŵp newydd o'r enw 'Beti a'r Gwylliaid Gleision' oedd wedi ei sefydlu gan yr Athro a'r Seiciatrydd, y Parchedig Gwilym O. Roberts, Pontllyfni. Arferai Gwilym O gynnal dosbarthiadau WEA yn y Waunfawr ac o glywed am ddiweddy y 'Valiants' cysylltodd â Sion a'i wahodd i ymuno â hwy. Bwriad Gwilym O oedd creu grŵp pop fyddai'n ymddangos a chymryd rhan yn y capeli er mwyn ceisio denu mwy o bobl ifanc i fynychu'r oedfaon. Roedd y "syniad gwalltgofaidd ac anwaraidd!" o gael "grŵp pop felltith" yn y set fawr wedi cythruddo a chyffroi nifer o weinidogion a blaenoriaid, ynghyd â rhai o selogion y capeli yn enfawr Beirniadwyd Gwilym O yn hallt a derbyniodd sawl galwad ffôn ffaidd a chas yn ei gyhuddo o fod yn sarhaus ac amharchus tuag at yr achos. Er gwaethaf yr holl wrthwynebiad profwyd i'r ymgyrch fod yn llwyddiant, ac roedd yn sicr wedi apelio at nifer o bobl o bob oedran. Yn ogystal â'r capeli byddai'r grŵp yn cynnal nosweithiau mewn gwahanol neuaddau a gwestai yn rheolaidd. Mor wahanol fyddai'r gerddoriaeth ar y nosweithiau hyn, yn enwedig pan fyddai caneuon tanllyd fel Roc a Rol a Rhythm & Blues i'w clywed yn diasbedain ac yn ysgwyd y parwydydd. Yn 1966 ac 1968 rhyddhawyd dwy record EP gan 'Y Gwylliaid Gleision' o dan y teitlau, 'Cymru'n Canu 66' a 'Cymru'n Canu 68'.

Ar ddiweddy 1968 ymunodd Sion gyda grŵp o'r enw 'Y Cregyn', sef parti o bump o ferched ifanc a dau o fechgyn lleol fyddai'n diddanu cynulleidfaoedd mewn neuaddau a chyngherddau yr ardaloedd o gwmpas. Dyma'r grŵp olaf iddo fod yn rhan ohono ac wedi'r holl flynyddoedd o deithio a pherfformio ar hyd y wlad, rhoddwyd y gitâr 'Hofner' goch i orffwys yn ei chas, yn nhywyllwch a thawelwch yr atig.

Wedi ymddeol o'r becws, treuliodd Sion lawer o'i amser hamdden yn arlunio a thynnu lluniau rhai o olygfeydd godidog y wlad o gwmpas. Ymunodd gyda chlybiau bowlïo mat a lawnt y Waunfawr a Chaernarfon ac roedd y llu o dlysau a chwpanau yn y cwpwrdd gwydr ac ar y silff ben tân yn y tŷ yn dyst o'i allu a'i fedr fel bowlïwr.

Yn 2015, gyda'i olwg a'i iechyd yn pallu a dirywio, derbyniwyd Sion i gartref gofal Plas Garnedd ac yn ddiweddarach i gartrefi gofal a nyrsio Penisarwaun a Fairways Newydd ar Ynys Môn, lle treuliodd ddyddiau olaf ei fywyd. Cynhaliwyd gwasanaeth ei angladd yn Amlogsgfa Bangor dan ofal y Parch Marcus Robinson ac, yn ôl ei ddymuniad, gwasgarwyd ei lwch ar draeth y Foryd, lle gwasgarwyd llwch ei gyn gymar, Sally, dair blynedd ynghynt.

Mae cawg i gofio amdano wedi ei osod ar fedd ei rieni ym mynwent Betws Garmon.

Gwilym Morris Jones



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



**Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porsche**

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559** 

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Laura Jones Dunn, Trigfa, Waunfawr



Un a ddaeth yn rhan fawr o Waunfawr ers iddi symud i fyw yno yn Nhrigfa yn 2005 oedd Laura Jones Dunn. Yr oedd iddi bersonoliaeth hwyliog a hoffus a'i sgwrs yn ddifyr yn ddifeth, a thynnodd hyn hi i galon y gymdeithas.

O Nottingham y symudodd i'r Waun, ond Cymraes i'r carn ydoedd ac yr oedd yn frwdfrydig dros bob achos Cymreig. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr yn Waunfawr ac yn gefnogwraig frwd hefyd i Eco'r Wyddfa y byddai'n ei ddarllen gyda mwynhâd bob mis. Yr oedd yn arbennig o falch o weld ei hŵyr, Peter, a anwyd yn Nottingham, yn blodeuo wrth ddod i siarad Cymraeg mor rhugl yn Ysgol Bontnewydd a gweithio am gyfnod yn Antur Waunfawr cyn iddo fynd i'r brifysgol.

Merch yr haf, merch Gardd-llygaid-y-dydd, yn Nantmor, Beddgelert a thalp o fwynder a haelioni, oedd Laura Jones Dunn, neu Low. Yr oedd y cyn-gynghorydd Gwilym Williams, Waunfawr, yn gymydog agos iddi yno. Fe'i ganwyd ym Mehefin 1921 yn drydydd plentyn William a Mary Ellen Williams, a'i henwi ar ôl ei nain, Laura Jones. Yno yr oedd ei gwreiddiau a'i magwraeth gyda'i brawd, Jôs, a'i dwy chwaer, Alice a Mair. Gweithiai adref ar y fferm, ac yna yn Llyndy yn ystod y Rhyfel yn cadw tŷ i athro o Eton, cyn priodi ym 1953 â Wilfrid Lewis Dunn, cyfrifydd a chyd-sylfaenydd cwmni Dunn & Ellis, Porthmadog. 'Roedd ganddo dŷ ger Aberglaslyn, sef Bronyaur, ond yn Nottingham yr ymgartrefodd y ddau. Taflood Low ei hun i fywyd prysur a diddordebau ei gŵr, gan gynnwys ei ymwneud â'r Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol. Collodd ei gŵr yn annisgwyl ym 1968, ond arhosodd yn Nottingham gyda'u dau blentyn, Graham a Marianne, a chwarae rhan amlwg mewn elusennau yno, gan gynnwys sefydlu Skylarks, canolfan wyliau i'r anabl, a gweithredu fel ymddiriedolwr Ysbyty Llygaid y ddinas. Ymddiddorai hefyd mewn gosod blodau a chasglu hen bethau.

Er mudo i Nottingham aeth Low â Nantmor yno gyda hi a disgleiriai'r gorau o ddiwylliant Cymru drwyddi; y gwerthoedd Cymreig a ddysgodd ar yr aelwyd gyda'i theulu, yng Nghapel Peniel, Nantmor ac yn yr ysgol – Ysgol Nantmor i gychwyn ac yna Ysgol Beddgelert. Yn llawn hwyl a direidi, 'roedd barddoniaeth, trin geiriau a chanu'n ganolog iddi ynghyd â pherfformio ar lwyfan. Cafodd athrawon da gan gynnwys Wil Oerddwr, a fu'n gweithio yng Ngardd-llygaid-y-dydd, a Robert Williams, Pantdwoer. Ef a ddysgodd barti

cyd-adrodd Nantmor i ennill yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caernarfon, ym 1930 a Low'n un o'r parti. 'Roedd hi wrth ei bodd yn gwrandao ar y cyd-adrodd yn Eisteddfod yr Urdd eleni, 78 mlynedd yn ddiweddarach. 'Roedd hefyd yn gantores o fri, dawn a etifeddodd gan ei hynafiaid o Gwmcloch, Beddgelert, a gallai gyrraedd y nodau uchaf un hyd yn ddiweddar. Fel aelod o Gôr Telyn Eryri yn ystod y pedwardegau, crwydrodd Gymru a thu hwnt i ddiddanu. 'Roedd arweinydd y Côr, Edith, Telynores Eryri, a hithau'n perthyn a'r ddwy'n goelcerth o hwyl gyda Thelynores Maldwyn a'r criw llawn talent o ardal Beddgelert. 'Roedd Low'n un o'r ser, yn perfformio adroddiadau digri, canu a chanu'r delyn. 'Roedd cystadlu hefyd yn ei gwaed, o'r Cyfarfodydd Bach a'r Cyfarfodydd Llenyddol i Eisteddfodau lleol, a mwynhâi fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yng nghwmni Mair, ei chwaer. Dalai i gystadlu ac ennill wedi symud i Nottingham, gan gynnwys canu cerdd dant yn Eisteddfod y Gymdeithas Gymraeg yno. Cafodd lawer o lwyddiant hefyd yn cystadlu fel aelod brwd o Glwb Ffermwyr Ifainc Llanfrothen.

'Roedd y capel hefyd o bwys iddi. Er ei bod yn mynychu capel Waunfawr tan iddi ei chael yn anodd symud, cadwodd ei haelodaeth ym Mheniel, Nantmor. Yno y dysgodd ei gwerthoedd a'i haelioni ac yno y cafodd y llwyfan cyntaf i berfformio wrth ddweud adnod. Cadwodd darllen ei Beibl ei chyswllt â'r Gymraeg ac â Nantmor pan drigai yn Lloegr. Yr oedd bod yn aelod o Gymdeithas Gymraeg Nottingham, a'i Chadeirydd, yn hollbwysig, ac er ei bod yn gefnogwr brwd i dim pêl-droed Nottingham Forest, 'chefnogai neb dim rygbi Cymru'n fwy na hi ychwaith. Credai yn sefydliadau Cymru, gan gynnwys yr Eisteddfod a oedd, iddi hi, yn agoriad i'r genhedlaeth nesaf.

Yn Nhrigfa y bu farw'n dawel ar 25 Tachwedd 2018 yn 97 oed cyn ei haduno, wedi'r hir wahanu, â Wilfrid, ei gŵr, ym mynwent Tanlan, Llanfrothen. Gedy fab, Graham, Victoria eu dau fab hwythau a gor-wyres; a merch, Marianne, sy'n trigo'n Rhyd Ddu ac Andy a'u mab hwythau. Bu'r teulu oll yn ofalus iawn ohoni, yn arbennig Marianne ac Andy, ei gŵr – 'Handy Andy' i Low - ond mawr yw diolch y teulu hefyd i holl garedigrwydd a gofal Meddygfa Waunfawr, y gofalwyr yr oedd mor hoff ohonynt ac yn bennaf oll cymdogion a ffrindiau yn Waunfawr. Gwnaeth croeso-breichiau-agored y gymdeithas arbennig yn Waunfawr amser Low yn y pentref yn un diddan a llawen dros ben.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Chwefror

3: Mr John Robinson

10: Parch Glenys Jones

17: Mr Arawn Glyn

24: Ms Delyth Oswy Shaw

Mawrth

3: Parch Dafydd Lloyd Hughes

10: Parch Eifion W. Williams

17: Mr Roberts Morris, Penygroes

24: Oedfa yng ngofal yr aelodau

31: Mr John Roberts

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch ein
hysbysebwyrr**

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Grwp Cynefin a Tai Bron Gwynedd, Bethel.

Croesawyd Gwyndaf Williams, Rheolwr Datblygu a Noela Jones, Pennaeth Gwasanaeth Tai, Grwp Cynefin i'r cyfarfod. Mae'r ddau wedi cytuno i ddod i drafod datblygiad y 4 tŷ ger Bron Gwynedd, sydd wedi cael eu prynu ganddynt bellach. Dywedwyd fod oddeutu 47 teulu ar restr aros tai yn ardal Bethel. Ar hyn o bryd, mae polisi gosod tai, yn gweithio ar system pwyntiau polisi gosod lleol. Fodd bynnag, yn yr achlysur yma, mae posib gosod polisi arbennig i rhain oherwydd sawl rheswm. Bydd polisi tebygol yn cynnwys rheol 106, gyda blaenoriaeth i bobl o fewn ardal Bethel a Chyngor Cymuned Llanddeiniolen, sydd wedi byw yn yr ardal ers 5 mlynedd neu fwy. Ond buasai rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Cyngor Gwynedd. Tai 3 llofft i'w rhentu gan y cwmni ar rent wythnosol o gwmpas £100, yn cael ei osod gan Llywodraeth Cymru.

Y gobaith yw y bydd y tai yn barod o gwmpas diwedd mis Chwefror. Dywedodd Mr. Gwyndaf Williams bod yn arferoli gwmnïau drwy gytundebau fel hyn rhoi swm o arian i broiect neu i wella rhywbeth o fewn Y Gymuned. Yn ôl yr arfer, mi fydd eto ar gael, ac yn cael ei ddidoli trwy law Cyngor Cymuned Llanddeiniolen tuag at broiect neu welliant yn Bethel., dan arweiniad Cyngorwyr Cymunedol a trigolion Bethel.

Derbyniwyd cofnodion y 6ed o Dachwedd fel rhai cywir

Materion o'r Cofnodion

Arian Clybiau Ieuenctid – Yn dilyn cysylltu i gael trosglwyddo

yr arian roedd angen llythyr yn datgan fod yr arian fydd yn cael ei drosglwyddo yn cael ei ddefnyddio er budd ieuenctid yr ardal. Nid ydym wedi trafod eto, gan ein bod dal yn disgwyl i dderbyn yr arian, cyn cael trafodaeth pellach.

Llythrau Diolch - Derbyniwyd dau lythyr Diolch am nawdd ariannol y naill gan Clwb Snwcer Deiniolen a' llall gan Eisteddfod Bentrref Bethel.

Diffib Penisarwaun a Brynrefail - Nodwyd fod Brynrefail yn pwyso ymlaen gyda ymgyrch i gael diffriblydd yn y pentref.

Yn yr un modd, bydd cyfarfod i drafod ymgyrch cael diffriblydd yn Penisarwaun ar Ionawr 14eg.

Gohebiaeth a materion eraill

Brynrefail - Derbyniwyd lythyr gan Tim Cumine, ynglyn a chysylltiad y pentrefwyr a sawl prosiect fuasai Cwmni Caban Cyf yn gallu helpu i wella'r pentref. Mae'r Cyngor Cymuned yn gefnogol iawn i hyn, ac awgrymwyd y buasai Martin Davies, Y Cyngorydd Cymunedol yn cynrychioli Y Cyngor Cymuned ar y bwrdd yma. Y clerc i ysgrifennu llythyr i gyflwyno hyn.

Tai Teg - Mae'r Cyngor wedi derbyn poster yn nodi linc i unrhyw un gofrestru diddodeb ar gyfer eiddo fforddiadwy drwy ymweld a'u gwefan ar www.taiteg.org.uk

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Tir ger Maes Gwylfa –Datblygiad preswyl ar gyfer 9 tŷ fforddiadwy a mynedfeydd Newydd.

Rynys - Addasiad ac estyniad i annedd bresennol

Rhiwlas, Gwaith trin Carthion – Tystysgrif Cyfreithlondeb ar

gyfer datblygiad arfaethedig o fewn safle gwaith trin dwr aflan.

Cae Metta – Estyniad i Annedd bresennol

Capel Peniel, Waen Pentir – Addasu'r cyn gapel i annedd breswyl

Cae Goronwy – Derbyniwyd llythyr o Cyngor Gwynedd ynglyn a chais maent wedi ei dderbyn i wyro rhan o lwybr cyhoeddus 141. Mi fu Y Cyngor mewn brwydr i beidio gwyro y llwybr yma gyda cyn berchnogion y y ty. Y pryd hynny gosodwyd arwydd i symyd y llwybr heibio i lwybr cwrteisiol, a gosod Ci a oedd yn fygythiol tuag at gerddwyr yno.

Mae Cyngorwyr Cyngor Cymuned o'r un farn y dylid gwrthwynebu i'r cais yma hefyd oherwydd y rhesymau isod:

Mae yn lwybr hanesyddol – llwybr hynafol a gerddwyd gan Chwarelwyr i'w gwaith.

Bwysig cadw ein treftadaeth

Buasai yn rhoi cynsail i eraill tebyg Etifeddiaeth LLechi yn dod i rym, pwysigrwydd angen cadw'r llwybrau hynafol hyn.

Rhoddodd Y Cyngor Cymuned, a'u barn pan ddaeth cais Y Bragdu yn yr adeilad, yna doedd ganddom wrthwynebiad, cyn belled fod y llwybr ddim yn cael ei newid.

Roedd y perchnogion yn ymwybodol o'r llwybr cyhoeddus pan brynwyd y tŷ.

Daeth 2 lun i law gan gerddwr yn ddiweddar, lle mae yn ymddangos fod coeden wedi disgyn ar draws y llwybr tuag at Cae Goronwy.

Llun arall yn dangos arwydd melyn i osgoi'r goeden, ac ail gyfeirio cerddwyr. Y Clerc i gysylltu a Gwynedd

Allt Ddu

Croesawyd Mr. Gareth Roberts o Antur Fachwen

Amlygwyd i Gareth ein poen ynglyn a cholli enwau pwysig yn ein ardal, ac nad oes posib i Gwynedd caniatáu rhoi arwydd gyda mond enw Allt Ddu yn ardal Dinorwig, ac eu bod wedi awgrymu ein bod yn cael rhyw Fwrdd gyda Enw ac yn amlygu

hanes yr ardal a ballu yno. Gan fod Gareth yn hen law ar wneud y pethau yma ac wedi gweithio gyda sawl Cyngor yn gwneud pethau tebyg, pwy well i gael i ddylunio ac ein rhoi ar ben ffordd. Cytunwyd yn dilyn trafodaeth y buasai Gareth yn rhoi dyluniau ynghyd a amcanbris costau at eu gilydd erbyn mis Chwefror/Mawrth.

Bydd rhaid i cyngor Gwynedd rhoi sel bendith ar y prosiect a'r lleoliad cyn penderfynnu. Diolchodd y Cadeirydd iddo, ac edrychwn ymlaen i gydweithio gyda Gareth ar y prosiect yma.

Nodwyd hefyd, efallai fod posib derbyn grant, yn sgil y cais Safle Treftadaeth, Y Clerc i gysylltu a'r adran yn Cyngor Gwynedd.

O gwmpas y Bwrdd

Deiniolen – Nodwyd fod y Grwp Ymgyrch Diffriblydd yn gobeithio prynnu 3 diffib i'r ardal yn fuan ar ôl y Nadolig. Bydd 1 yn cael ei leoli yn Y Lodge, Dinorwig, 1 ar wal y Siop yng nghanol y Pentref a'r 3ydd ar wal Garej Arfon. Yn ogystal a hyn, mae Mr Shorrock, perchennog y siop a garej Beran, am dalu a gosod un ei hun ar wal Y Garej yn Beran. Wrth gwrs mae hyn yn newyddion calonnog iawn i'r pentref a'r ardal. Diolch i bawb sydd wedi bod mewn ymrwymiad a'r ymgyrch mewn unrhyw ffordd, a diolch arbennig i bawb sydd wedi cyfrannu yn ariannol. Gobeithio, os bydd rhaid defnyddio rhain, y byddwn yn gweld eu gwerth yn achub bywydau.

Man Ailgylchu Rhiwlas – Mae yn ymddangos fod y fan sydd wedi bod ar y ffordd ger Beran am rai wythnosau wedi cyrraed y safle ailgylchu yn Rhiwlas. Angen cysylltu a'r adran amgylcheddol yn Cyngor Gwynedd i drefnu i roi arwydd Dim Aros Dros Nos.

Brynrefail – Dywedwyd fod gobaith o gael Diffriblydd yn Brynrefail, unwaith bydd tim llywio i ymgyrchu wedi sefydlu, os oes diddordeb a rhywyn, cysylltwch a Martin Davies..

- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

Cefnogwch ein hysbysebwy

TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen

(01248) 671382 • 07935324193

eboost- juliaposhpaws@btinternet.com

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS RHAGFYR 2018:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth yr 11eg o Ragfyr, 2018 am 7.00 yh.

PRESENTOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Nicola Brown, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp.

Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Trystan Thomas

DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan wahanol benawdau.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Ferchery 14eg o Dachwedd, 2018 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Toiledau:

Derbyniwyd ebost ynglŷn â Phartneriaeth Toiledau efo Cyngor Gwynedd (CG), roedd hwn mae'n ymddangos wedi mynd i'r holl gynghorau. Wedi ffonio cafodd y Clerc ar ddeall na fu unrhyw symudiad pellach yn y drafodaeth gyda CG ac roedd hi'n ymddangos nad oedd unrhyw fwriad i ychwanegu maes parcio arall at yr un a oedd wedi ei gynnig i godi arian i gynorthwyo'r Cyngor hwn i wynebu'r costau uchel o gadw tri toiled ar agor. Mae'n ymddangos fod y ddau faes parcio arall dan reolaeth adran Economi CG ond yr un a fyddai'n y cytundeb gan adran yr Amgylchedd.

Ar awgrym y Clerc penderfynwyd anfon llythyr at Bennaeth yr Adran Economi i weld a ellid cynnwys y ddau faes parcio arall yn y cytundeb.

2. Llinellau Melyn, Llanberis:

Daeth eglurhad bod llinellau melyn i'w hychwanegu rhwng capel Jerusalem a mynedfa castell Dolbadarn yn unol a dymuniad y Cyngor, bydd hyn yn ychwanegol at ymestyn y llinellau o westy Victoria ymlaen.

3. Y Nadolig:

Cyrhaeddodd y coed Nadolig, fe'i gosodwyd a'u goleuo. Diolch i'r nifer fechan a fu yn cynorthwyo. Adroddwyd eu bod yn dderbyniol iawn a sawl un yn canmol. Er hynny tybiwyd bod angen ychwanegu at oleuadau'r goeden yn Llanberis y flwyddyn nesaf a chael mwy o oleuadau yn y pentref. Penderfynwyd

trafod y mater yn mis Medi.

Trefnwyd noson o ganu carolau wrth oleuo'r goeden yn y Nant y Sul blaenorol gan IO, gyda mins peis a diferyn o win cynnes i ddilyn yn Ty'n Llan.

4. Goleuo'r Eglwys:

Cafwyd ar ddeall gan BH mai £100 fydd y gost o oleuo Eglwys Llanberis ar noson y Ffair Nadolig. Er mai cyfrannu at y goleuo oedd y bwriad gwreiddiol penderfynwyd yn unfrydol i dalu'n llawn am y golau.

5 Yr Heddlu:

Bydd yr heddwys yn dod i'r cyfarfod nesaf yn Ionawr oherwydd newid noson cyfarfod y Cyngor.

6. Sedd Wag:

Yn ôl CG nid oedd neb wedi gofyn am etholiad i lenwi'r sedd wag yn Nantperis yn dilyn ymadawiad Gwenda Roberts. Bydd y Clerc yn symud mlaen i hysbysebu y sedd wag a gofyn am enwau er mwyn cyfethol aelod newydd. Cafwyd ar ddeall fod Aneuryn Jones yn ymddiswyddo fel Cynghorydd. Bydd angen dilyn yr un drefn yn Llanberis a hysbysebu ar ôl y Nadolig i weld a fydd yna alw am etholiad.

MATERION ERAILL:

1. Defibrillator:

Adroddwyd fod y grŵp sydd ynghlwm a chael rhai i'r pentref yn chwilio am le i osod un yn y pen gorllewinol. Holwyd am awgrymiadau.

2. Cronfa Mân Gymorthdaliadau:

Penderfynwyd gosod hysbysebion i dderbyn ceisiadau erbyn y Cyngor nesaf.

3. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Maes Parcio Nantperis:

Penderfynwyd holi pam fod biniau sbwriel mawr wedi ei gosod yn y maes parcio. Roedd pryder y byddent yn denu sbwriel fel a ddigwyddodd rai blynyddoedd yn ôl pan leolwyd sgip yno.

4. Taccis:

Mynegwyd pryder fod taccis wedi bod yn parcio yn anghyfreithlon yn y pentref ac fod rhai cwmnïau heb le addas i'w parcio. Yn ychwanegol soniwyd fel yr oedden nhw yn mynd a theithwyr oddi wrth y bysiau sydd yn derbyn nawdd cyhoeddus sylweddol, yn enwedig y bysiau dros y Bwlch i Benygrwyd. Mae nifer o'r moduron yma a'i gyrwyr yn disgwyl am deithwyr a fyddai fel arfer yn mynd ar y bws ac yn eu hannog i deithio'n y taccsi. Dywedwyd mai holl bwrpas y gwasanaeth 'Sherpa' oedd i gario mynyddwyr ac ymwelwyr i'r llwybrau ac yn ôl.

GOHEBIAETH:

1. Llywodraeth Cymru (LIC): Adran 137(4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:

Nodyn i ddweud mai £8.12 ydi'r swm priodol ar gyfer 2019 - 20 at ddibenion adran 137(4)(a) o Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Dyma'r adran o'r ddeddf sy'n caniatáu i gynghorau wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled a bod y gost yn gyson a'r budd. Mae'r ddeddf yma hefyd yn caniatáu gwario at ddibenion elusennol ac eraill penodol, ac yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario o dan adran 137 (10 a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2019 - 20 fydd £8.12 am bob etholwr.

Eleni, yn y flwyddyn ariannol bresennol, y swm ydi £7.86.

2. Cyd Ynni / Datblygiadau Egni Gwledig:

Nodyn am gyfarfod a gynhelir i roi cyngor (ac o bosib cymorth ariannol) ar arbed ynni yng nghartrefi'r ardal. Fe'i cynhelir yn Y Ffestri, Llanberis b'nawn Gwener yr 11eg o Ionawr rhwng 2 a 5yp.

3. Biniau Sbwriel Gwirfoddol a CG:

Cafwyd adroddiad fod biniau sbwriel gwirfoddol wedi eu gosod ger y safle bws dros-dro ar y ffordd osgoi ac yn y maes parcio bysiau ger Mynydd Gwefru. Mae swyddog Trefi Taclus CG yn anhapus ac am weld eu symud. Atgoffwyd y dylid gofyn am finiau ychwanegol trwy'r Cyngor hwn neu'r Cynghorydd Sir, yn hytrach na'u gosod heb ymgynghori.

Yn amlwg gan fod y rhai sy'n tacluso'r pentref yn wirfoddol bob wythnos yn gweld fod galw am finiau penderfynwyd gwneud cais i CG am un yn y maes parcio, ond nid ar y ffordd osgoi gan mai safle bws tros-dro sydd yno.

4. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):

Ymgynghoriad ynglŷn â bwriad i newid trywydd (ail-linio) dau lwybr rhwng Llanberis a Betws Garmon. Un yn lwybr march ger Snowdon Ranger a'r llall ger Ffridd Uchaf, Rhyd-ddu a fydd yn osgoi mynd trwy'r buarth. Edrychwyd ar y map a phenderfynwyd fod hyn yn ymddangos yn ddoeth, ac nad oedd dim gwrthwynebiad.

5. Cyngor Tref Caernarfon

Cais am gefnogaeth i fwriad y Cyngor uchod i wahodd Eisteddfod Genedlaethol 2012 i'r dref. Yn ôl y llythyr mae ardaloedd eraill o fewn y sir a diddordeb gwahodd yr Eisteddfod ond mae Cyngor Tref Caernarfon yn awyddus i'w chroesawu i fod yn Steddfod Stryd. Penderfynwyd cefnogi'r cais er fod amryw yn amheus o'r syniad a'r gost

o Steddfod Stryd yng Nghaernarfon.

6. CG - Cau Ffordd:

Rhybudd am fwriad i gau ffordd Fron Goch ar yr 2ail o Ragfyr.

7. Cylch yr Iaith:

Cais am gefnogaeth i ddwyn pwysau ar Adran Addysg CG i beidio ac ail strwythuro a diswyddo staff yn y Canolfannau Iaith sydd yn y sir. Dywed y llythyr y byddai'r ail strwythuro yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth, ac ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Canolfannau o ran eu diben i ddysgu Cymraeg yn llwyddiannus i blant uniaith sy'n newydd ddyfodiad i'r sir. Wedi trafodaeth penderfynwyd cefnogi Cylch yr Iaith. Dywedwyd os na fedr CG gefnogi'r iaith a throchi'r plant a ddaw yma i fyw a'u gwneud yn ddwyieithog yna pa obaith sydd i'r Gymraeg.

8. Gwynedd & Môn - Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

Ymgynghori ar ganllawiau cynllunio atodol mewn perthynas â

Tai Fforddiadwy; Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy; Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid - Ymgynghoriad Pellach.

Bydd yr ymgynghoriad rhwng 13eg o Ragfyr 2018 a'r 31ain o Ionawr 2019.

9. CG - Adran Amgylchedd: Apêl yn erbyn cais cynllunio a wrthodwyd:

Cyfle i ymateb i Apêl yn erbyn gwrthod Cais Rhif: C18/0609/15/LL - codi tŷ un llawr newydd, tir ger Ffordd Tŷ Du, Llanberis. Gwrthodwyd y cais am nifer o resymau sydd yn ymddangos yn rhesymol i'r aelodau, rhesymau yn ymwneud a mwynderau lleol a'r amgylchedd, ac felly penderfynwyd peidio ag ymateb. Dyddiad cau 21ain o Ragfyr, 2018.

CYNLLUNIO:

APCE:

• NP3/15/228 - Maes parcio gorlifo tymhorol (i fwy na 250 o geir rhwng 01 o Fai a 30 o Fedi mewn unrhyw flwyddyn - tir ger maes parcio presennol APCE, Nantperis. Yn gefnogol i'r cais am sawl rheswm; am ei fod yn agos at yr un presennol, dim ychwanegiad i beryglon trafniadaeth a dim ymyrraeth a chartrefi.

Cyngor Gwynedd

• C18/1010/15/LL - Codi tŷ deulawr, llecynnau parcio ynghyd a lleoli siambr Bwmpio - tir ger Peris View, Llanberis - dim sylw.

• C18/1030/15/LL - Estyniad deulawr a to gwastad yn y cefn - 23 Goodman St, Llanberis. - dim sylw.

[Mynegodd HLJ fod ganddi gysylltiad teuluol, ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.]

LLWYBRAU A'R FYNWENT:

Llwybrau:

Adroddwyd fod angen tacluso'r llwybr sy'n arwain i lawr at Faes Parcio APCE, Nantperis ac fod angen gwneud yr un peth ar y llwybr ger Gwastadnant.

ECO'r Wyddfa

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 18fed o Ragfyr 2018.

Y Goeden Nadolig

Adroddwyd fod gosod y goeden Nadolig yn Llanrug wedi bod yn anodd oherwydd y gwynt cryf ar y diwrnod ond fe lwyddwyd i'w gosod. Adroddwyd hefyd y goleuadau wedi cael eu archwilio ar gyfer gofynion PAT.

Y Clwb Ieuenctid

Adroddwyd fod y nifer o blant sydd wedi ymuno a'r clwb hyd yma fel a ganlyn:

Llanrug	44 (81.5%)
Bethel	2 (3.7%)
Waunfawr	1 (1.85%)
Penisarwaun	1 (1.85%)
Deiniolen	6 (11.1%)

Adroddwyd fod y tal aelodaeth i'r clwb yn £1 a fod pob aelod yn talu 50c ar y noson. Bydd arian y clwb mewn cyfrif banc ond byddai staff y clwb yn gallu talu arian i fewn i'r cyfrif yn Swyddfa Bost Llanrug.

ECO'r Wyddfa

COFNODION CYFARFOD
CYNGOR CYMUNED
WAUNFAWR NOS FERCHER
28.11.2018 AM 7.15 YR HWYR,
YN CAPEL CAEATHRO.
Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd)
Edgar Owen, Liz Daniel, Menna Jones, Iwan Davies, Erddin Llwyd, Delyth Jones, Sali Burns, Doug Jones, Cain Thomas, Shoned Rees Griffith (cofnodi)
Ymddiheuriadau – Eurig Wyn
Datganiad Buddiant - Dim
Derbyn Cofnodion 17.10.18 –
Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.
Materion yn codi o'r Cofnodion -
Materion Caeathro –
1. Ffordd Osgoi Bontnewydd – wedi cychwyn paratoi ar y safle, dim dyddiad cychwyn pendant ar hyn o bryd.

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Y Pwyllgor Hamdden

Coeden Nadolig

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod gyda Mrs Meinir Griffith i drafod trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig. Eglurwyd bydd y goeden yn aros i'fyny hyd y Dydd Llun y 7fed o Ionawr.

Diwrnod Casglu Ysbwriel

Adroddwyd fod dyddiad casglu ysbwriel wedi ei drefnu ar gyfer y 12 o Ionawr 2019.

Cystadleuaeth Pentrefi Bywiog – Sir Gaernarfon

Adroddwyd fod 3 aelod a'r clerc wedi cynrychioli'r Cyngor ar y noson wobrwyo ym

Mhant Du, Penygroes ac i dderbyn yr ail wob'r yn y gystadleuaeth. Praesept ar gyfer 2019 / 2020

Adroddwyd fod y bpraesept i fod i fewn i Gyngor Gwynedd erbyn 18fed o Ionawr a bydd rhaid i gyfarfod mis Ionawr ei gadarnhau. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod ar y 9fed o Ionawr i fynd drwy'r

ffigyrau.

Ysgol Gynradd Cwm y Glo.

Adroddwyd fod yr ysgol yn cael ei gwagio a fod noson wedi ei chynnal yno i arddangos hen luniau ac i gyn ddisgyblion ddod at ei gilydd.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Mae Cyngor Gwynedd yn dal i ddisgwyl y ffigyrau terfynol gan Lywodraeth Cymru ond dim ond mân newidiadau a ddisgwylir. Mae'r bwlch yn y gyllideb oddeutu £13 miliwn ac roedd adroddiad gerbron y cabinet yn amlinellu rhai opsiynau i arbed arian sydd yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd a thoriadau. Mae't cynghorwyr i gyd wedi cael cyflwyniad ar y sefyllfa, a bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu i benderfynu ar yr opsiynau a'r effaith yn mis Chwefror. Bydd hyn yn arwain at osod y dreth am y flwyddyn nesaf.

Mae'r Comisiwn ffiniau wedi gwneud eu argymhelliad terfynol a bydd ward Brynrefail yn cael ei gynnwys hefo Cwm y Glo.

Diffibriliwyr

Adroddwyd fod dau diffibriliwr wedi eu gosod yn Llanrug, un ar wal siop y Premier a'r llall ar wal Glyntwrog. Penderfynwyd hefyd i archebu diffibriliwr ar gyfer Cwm

y Glo gan fod digon o arian wedi ei gyfranu erbyn hyn.

Bydd y darparwyr yn trefnu hyfforddiant ar sut i'w defnyddio gydag un yn ystod y dydd a'r llall gyda'r nos.

Cais am gymorth ariannol

Yn unol a'r drefn arferol penderfynwyd cyfrannu £700 tuag at Clwb Pêl droed Llanrug Unedig;

Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Adroddwyd fod adroddiad wedi ei dderbyn a chafwyd braslun ohono. Bydd y rhybudd o'r archwiliad yn cael ei hysbysu ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.

Parc Chwarae Pwll Moelyn.

Penderfynwyd i dderbyn pris i roi adroddiad ar gyflwr coed cae chwarae Pwll Moelyn yn dilyn i goeden ddymchwel yn ystod un o'r stormydd ym mis Hydref.

Cais cynllunio.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais i addasu adeilad allanol ar gyfer uned wyliau, lle cynau parcio a gwelliant i'r fynedfa bresennol ger Minffordd Cottage, Llanrug

Lleoliad cyfarfod mis Ionawr 2019

Penderfynwyd cynnal cyfarfod mis Ionawr yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug ac i holi am gyfleusterau yn Menter Fachwen, i gynnal cyfarfodydd Cwmyglo yn yn y dyfodol.

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Waunfawr

2. Mainc Caeathro – Gwaith peintio y fainc i'w wneud yn fuan.

3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Dŵr yn codi ar ran o'r ffordd, aros Dŵr Cymru

4. Hysbysfwrdd Caeathro - Cymdeithas Cae Chwarae am drefnu y gwaith i'w atgyweirio.

Materion Waunfawr –

1. Biniau Baw Ci – Dal i aros i'r biniau gael eu gosod.

2. Tacuso Pentref – Swyddog Cadw Cymru'n dachus wedi ymweld â'r ysgol.

3. Maes Parcio ger Ael y Bryn - gwaith i'w dachuso wedi ei wneud.

4. Les tir tu ôl i'r Ganolfan –Wedi derbyn pris i wneud y trac beics. Cae aml dywydd – mewn trafodaethau â Swyddog o Cyngor Gwynedd.

5. Cyflymder traffig drwy'r pentref – Monitor i gofnodi cyflymder traffig

i'w osod yn fuan.

7. Clwb Ieuenctid –Wedi ailgychwyn.

8. Gwefan y Cyngor – angen rhoi mwy o wybodaeth ar y wefan newydd.

9. Archwiliad - wedi ei gwblhau ac wedi trafod yr ymateb yn y cyfarfod. Gerddi Bach – Fainc i'w rhoi ar y safle erbyn y gwanwyn. Wedi derbyn cais i edrych ar y mynediad o'r llwybr cyhoeddus.

Safle Glyn Rhonwy –Cyng EO yn mynychu cyfarfod nesaf 28/11/18.

Adroddiadau

1. Lloches Bws - Disgwyl bin newydd gael ei osod wrth ymyl y lloches bws ger yr hen bost.

2. Y Fynwent - Mewn trafodaethau a'r tiffeddiannwr i brynu tir ar gyfer y dyfodol.

3. Llwybrau Cyhoeddus – Wedi gofyn i Cyngor Gwynedd atgyweirio y llwybr ger Bryn Arfon.

Ch. Y Ganolfan- Dim pellach i'w adrodd.

Materion Cynllunio - Dau gais cynllunio newydd

Tan y Waen, Waunfawr - modurdy

newydd - dim gwrthwynebiad.

Tir ger Hen Capel, Caeathro - diwygio cais cynllunio - dim gwrthwynebiad.

Grantiau/Rhoddion

Derbyniwyd cais am roddion gan y mudiadau isod a cytunwyd -

Clwb Bowlio £200.00

Clwb Pêl-droed Waunfawr £500.00

Clwb Cae Chwarae Caeathro

£750.00

Merched y Wawr £200.00

Sefydliad y Merched £200.00

Eco'r Wyddfa £200.00

Materion Eraill –

Diolch i bawb a gymerodd ran yn noson goleuo y Goeden Nadolig yn y ganolfan, nos Iau, 6ed o Ragfyr 2018.

Mae gwasanaeth bws ar ddydd Sul erbyn hyn o Gaernarfon i Feddgelert. Arwyddion ffyrdd oedd angen eu glanhau yn yr ardal wedi cael sylw.

Banciau Ailgylchu Cymunedol wedi eu tynnu o'r Ganolfan yn Waunfawr.

Dyddiad cyfarfod nesaf – 20 Chwefror 2019 yn Festri Capel y

Waun, Waunfawr

PRESEPT CYNGOR LLANDDEINIOLEN

Yng nghyfarfod Ionawr yn dilyn cyfarfod yr is-banel cyllid penderfynodd y cyngor llawn i dderbyn eu argymhelliad o osod presept o £31, 800 ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Golyga hyn daliad o £17. 31 ar gyfer perchennog tŷ band D, codiad o £5 ar y flwyddyn flaenorol.

O dan y rheolau bellach mae'n rhaid i'r Cyngor benodi symiau penodol ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â chyfrifoldebau stadudol, ac hefyd unrhyw brosiect penodol dan sylw (gall hyn fod dros gyfnod mwy na'r flwyddyn gyfredol.)

Mae talp yn mynd i gynnal gweinyddiaeth y cyngor sy'n cynnwys cyflog/ adnoddau/ cyfarpar i'r Clerc. Hefyd taliadau polisi insiwrans/ aelodaeth o Un Llais Cymru y corff sy'n gwarchod gweinyddiaeth y cyngor. Hefyd y gost gynyddol flynyddol o archwilio'r llyfrau. Mae'r cyngor – fel sawl cyngor arall – wedi apelio yn erbyn y codiad afresymol â godir am y gwasanaeth hwn. Yn lleol mae'r cyngor yn stadudol gyfrifol am lwybrau/ goleuadau stryd/ graeanu halen/ cysgodfannau bws. Ar ben hyn mae'r cyngor yn dosrannu rhoddion o thua £5,000 yn flynyddol i gymdeithasau/ neuaddau/ eisteddfodau/

bandiau/ timau/ ysgolion meithrin... O fewn tiriogaeth y plwyf mae cymunedau Bethel, Rhiwlas, Deiniolen, Brynrefail, Seion, Clwt y Bont, Dinorwig a Phenisarwaun. Y mae'r galw felly yn gyson,ac anodd weithiau cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y cymunedau. Mae milltiroedd o lwybrau yn y plwyf i'w clirio a thorri, yr un modd gelltydd i'w graeanu â halen. Gall un golau stryd gostio hyd at £1500. Mae'r cyngor yn ceisio darparu un cysgodfan ar rota I'r gwahanol gymunedau – a chost eu trwsio ar adegau. Mae'r cyngor hefyd yn gyfrifol am gyfraniad at gostau cynnal etholiadau yn y pentrefi boed ar lefel cymuned/sirol/ Cynulliad/ Cyffredinol Brydeinig. Y mae'r rheolau sefydlog hefyd yn mynnu fod gan y cyngor ddigon o arian wrth gefn I gynnal rhedeg y cyngor am gyfnod o 6 mis.Gobeithio fod hyn yn rhoddi y cefndir i'r penderfyniad. Mae'r cyngor yn ymwybodol hefyd y gall mwy o gyfrifoldebau ffrydio i lawr o'r Cyngor Sir yn y dyfodol heb arian ychwanegol i gynnal y cyfrifoldebau. Gellir cael manylion penodol ar wefan y cyngor neu gysylltu â'r Clerc.

Un funud fach ...

MISBACH

Fùm ierioed yn Sweden. Ac yn sicr, doeddwn i ddim yno yn y flwyddyn 1712. Ac felly, chefais i mo'r fraint o rannu â phobl Sweden y dyddiad unigryw a gafodd eu gwlad y flwyddyn honno. Oherwydd mae'n debyg na welwyd y dyddiad 'Chwefror 30ain' ar galendr swyddogol yr un wlad arall erioed. Cymhlethdod y drefn o fabwysiadu Calendr Gregori yn lle'r Calendr Iwliaidd yn Sweden a barodd i'r dyddiad hwn gael ei ychwanegu at galendr y wlad am un flwyddyn yn unig yn 1712. Ond os cafodd pobl Sweden ddiwrnod ychwanegol yn 1712 roedd llawer ohonynt yn credu iddynt golli un diwrnod ar ddeg yn 1753 pan gwblhawyd y trosglwyddo o'r Calendr Iwliaidd i Galendr Gregori ac y dilynwyd Chwefror 17eg gan Fawrth 1af! Doedd y 'colli' hwnnw ddim yn unigryw i Sweden, gan fod hepgor ac ychwanegu dyddiadau yn beth digon cyffredin, ac yn wir yn anorfod, wrth i bobl fabwysiadu calendr gwahanol. Ond y mae 'Chwefror 30ain' yn ddyddiad y gall pobl Sweden ymffrostio ynddo a'i hawlio yn ddyddiad unigryw iddyn nhw.


Welwn ni felly mo'r degfed ar hugain o fis Chwefror. Dim ond bob pedair blynedd y gwelwn ni'r nawfed ar hugain. Oherwydd y 'mis bach' yw Chwefror i ni. Ac y mae pob un o'i ddyddiau'n unigryw. Does gan bobl Sweden ddim monopoli ar bethau felly; oherwydd beth bynnag a ddywed y calendr, y mae pob dydd yn unigryw. Mae pob dydd yn newydd; pob dydd yn dod â'i brofiadau ei hun; pob dydd yn dod â'i fendithion ei hun; pob dydd yn dod â'i gyfleoedd newydd i fwynhau a gwerthfawrogi'r cyfan a dderbyniwn.

I'r Cristion, mae pob dydd yn gyfle newydd i ddiolch i Dduw am ei ddaioni a'i gariad; pob dydd yn gyfle newydd i dderbyn gras a chymorth i fyw yn ufudd i'w orchmynion er mwyn dod, trwy ras, yn debycach i'r Arglwydd Iesu Grist. Ydi, y mae pob dydd yn unigryw. Chawson ni mo'r un dydd o'r blaen, a welwn ni mo'r un dydd eto; heddiw ydi heddiw, a phob heddiw yn rhodd gan Dduw i'w fyw a'i werthfawrogi i'r eithaf.

Buan iawn y bydd y mis bach hwn wedi mynd heibio, fel pob mis arall. Duw roddo ras i ni ddefnyddio pob munud ohono mewn ffordd a fydd nid yn unig yn lles i ni ac i eraill ond hefyd yn glod i'w Enw Ef ei hun.

JOHN PRITCHARD

Pigion Byd Natur
Stamp Post Tra-arbennig



Er mawr ddifyrrwch, hyd greu diddanwch, yn ystod Gŵyl y Nadolig 2018, darlledwyd rhaglen deledu benigamp a wnâi ddefnydd effeithiol o gamerâu a guddiwyd mewn peli a hyd yn oed anifeiliaid 'smal'. Hyn i gyd, welwch chi, er mwyn ysbio! Ie, gwylio symudiadau adar a chreaduriaid yn yr eira. Un o'r anifeiliaid a welwyd yn mynd trwy ei bethau ydoedd yr arth wen. Y mis hwn dyma aros hefo un arall o'r teulu, sef yr arth lwydaidd, a stamp post wyth doler ran ei bris, un o Ganada, a ddaeth i fodolaeth yn y flwyddyn 1997, wedi ei ddyfeisio gan Alain Ledue, hefo Jorge Peral yn gyfrifol am ei engrafu. Ran maint, nid ydyw ond 64 x 48.9 milimedr ran hyd a lled.

Cyn ei ymddangosiad, stampiau post cyfwerth â phum doler, a geid ar werth yng Nghanada. Ydyw! mae hwn! y stamp wyth doler yn un cwbl unigryw.

Wyddoch chwi bod y rhif 8 yn guddiedig ar goes yr arth sydd ar y stamp post? Os oes gennych chwi chwyddwydr coblyn o gryf mi welwch fy mod i'n deud y gwir, ac nid yn tynnu eich coes!

Ynghlwm wrth yr arth y mae Alain Ledue a Jorge Peral wedi cynnwys nifer o eirth bychain a'r cyfain ohonynt ar ffurfiau silwetau.

Yn yr awyr uwchben yr arth ceir hefyd ddwy linell a'r hyn a geir yno mewn gwirionedd ydyw dau air, Ie! 'mail poste'. Gellir eu gweld yn yr amlwg yng ngoleuni lamp Wlura-fioled.

Stamp post o wlad Canada. Rhaglen deledu ysbio a'r oll ynghanol yr eira, a'r pojio sgwennu amdanynt. Pa un a roddodd y mwyaf o ddiddanwch i chwithau a minnau taer ofynnwch! Mi gewch chwi ddyfalu pa un!

Dafydd Guto

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS

DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN
O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

CWÔT DI DA

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House
LLANRUG

PEN
CIGYDDION
Y FRO

YR WYNN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG



Ar ben arall i'r lein



Ar ddiwedd Ionawr bydd y gwrndawriad yn y Drenwydd a fydd yn penderfynu a fydd is-ddeddfau yn rhwystro rhai dulliau o bysgota yn dod i rym wedi gorffen. Mae'n diolchiadau i'r criw bach o bysgotwyr sydd wedi, ac yn dal i roi, o'u hamser i gasglu a gosod y dystiolaeth fod cynigion Cyfoeth Naturiol Cymru yn hollol afresymol, a'r ffordd ymlaen yw cydweithio rhwng y cymdeithasau/perchenogion pysgota a'r llywodraeth 'na yng Nghaerdydd. Ond mae'n amlwg nad yw peth fel hyn yn iawn yng ngolwg yr awdurdodau, does dim dwywaith y byddant yn defnyddio pob dull dan-din a niweidiol i'n hachos er mwyn cael eu ffordd eu hunain. Ydynt, maent yn arbenigwyr ar y dulliau drewllyd yma, fel y gwyddom yn iawn yn y fro yma, drwy eu hystyfnigrwydd yn gwadu am flynyddoedd nad oedd dim o'i le ar safon dyfroedd Padarn a'r Seiont. Ond gobeithio yn wir bod yr arolygwr yn ddigon cyfrwys i weld drwy eu ystumiau.

Mae'r arolwg am y dyfodol yn gwella'n gyflym, gan fod y bwrw grawn wedi bod yn eithriadol o dda hyd at ddechrau Ionawr 2019, a ma' nhw yn dal wrthi yn ystod wythnos gyntaf y mis. Ar 19ed. Hydref gwelais y claddiadau cyntaf ar y Seiont uwch ben Pont Crawia, a rhai da oeddynt, gwyniadau mawr yn ôl pob golwg. Erbyn diwedd Hydref 'roeddynt wrthi'n brysur ym Mhen Llyn a hynny, mwyaf tebyg, a dynnodd sylw y potsiars, oherwydd ar y 29ed, fe ddaeth pysgotwr ar draws rhwyd wedi ei gosod ar draws yr afon ym mhen Rhyd Bach (pwll dwfn cyntaf o dan bont newydd Pen Llyn).

Pan dynnwyd y rhwyd i'r lan 'roedd dau wyniedyn braf yn ei chrafanc. Do fe ffonwyd llinell argyfwng Cyfoeth Naturiol Cymru, ond hyd heddiw does dim ymateb wedi dod ganddynt. Diolch o galon i'r unigolyn a dynnodd ein sylw at y digwyddiad, cyn i fwy o ddifrod gael ei wneud.

Yn dilyn stocio torgochiaid bychain i Padarn ddiwedd Tachwedd, yn ystod pythefnos gyntaf yn Rhagfyr fe osodwyd rhwydi yn Afon y Bala i gasglu eu grawn – am y tro olaf o dan y cynllun presennol. Mae'r hen dorgoch yn un o'r pysgod mwyaf rhagweladwy eu ffordd. Dysgais lawer gan y diweddar Dr. Alistair Rodgers a oedd yn goruchwyllo materion pysgodfaol pan oedd grosaf Dinorwig yn cael ei hadeiladu. Un peth a ddaeth i'w sylw oedd y dyddiad tyngedfennol bwrw grawn, sef 13eg o Ragfyr, a rhyw ychydig o ddyddiau cynt neu yn dilyn. Fe gefais lawer o sleidiau gan Alistair o'i waith gyda'r torgoch, Wyddoch chi be, mae digon o luniau a geriach yma gennyf a hefyd gan Closs i wneud arddangosfa ardderchog ar y 'sgodyn gwyrthiol yma. Oes na rhywun fedr roi cymorth i ni drefnu un?

Fodd bynnag fe gafwyd torgochiaid ardderchog yn y rhwydi (gweler lluniau ar www.sgll.co.uk) Be oedd yn galonogol dros ben oedd bod nifer dda gyda'r asgell 'adipose' yn bresennol, hyn yn golygu eu bod wedi dod o stoc oedd wedi bwrw grawn a magu yn naturiol yn y llyn. Pethau yn rhoi tro am y gorau o'r diwedd.

Tipyn o newyddion da oedd cael cadarnhad gan CNC, nid gan gwmni 1st Hydro ei hunain, fod gwaith i ddechrau eleni ar ledi a chreu manau claddu i'r torgoch yn Afon y Bala. Cofiwch fe ddywedodd y cwmni fod hyn i gael ei wneud yn ystod 2018. a wedyn yn dilyn ymholiadau gennyf gyda'r cwmni, dywedwyd mai yn ystod 2020 y byddai'n digwydd os oedd arian ar gael. Felly mae gwaith dyfalu be sydd am ddigwydd. Gobeithio mai CNC



sydd gyda'r ffeithiau cywir – cawn weld yn ddigon buan.

Bydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod yr haf i atgyweirio cored Llyn Harri Parri, fe ddfrodwyd hwn yn ystod stormydd ddechrau 2018. Mae'r pwll yma yn rhan bwysig o hanes pysgota'r fro, ac yn bwysicach byth, yn fan lloches i'r pysgod mudol cyn dilyn eu taith i fyny Ffos y Dail i fwrw grawn. Mae rhyw adedwid pellach gan CNC bydd yn bosib ariannu gwaith o wneud yr afon fach yma yn fwy addas at fagu gwyniadau bach. Mae arian ychwanegol wedi ei ddynodi drwy'r Ymddiriedolaeth Afonydd i wneud gwaith at wella ychwanegol ar y cynefinoedd. 'Rydym yn gobeithio defnyddio peth o'r arian yma ar y Llyfni.

Ar 13 Rhagfyr fe gynhaliwyd ein Pwyllgor Blynnyddol yn adeilad yr Institiwt, Caernarfon. Newyddion da yw fod y prisiau heb eu newid. Mae'r diolch am hyn i lwyddiant ein llety, Melin y Cim ym Mhontllyfni, sy'n eithriadol o lewyrchus.

Fe rannwyd y gwobrau fel a ganlyn:-

Tarian W.J. Williams – eog trymaf: M. Owen, Caernarfon.

Tarian J.V. Evans – gwyniedyn trymaf: C. Hope, Caernarfon.

Tlws Tomi Lovell – am weithgareddau cefnogol i'r clwb: T. Brown, Waunfawr.

Tlws Maurice Jones – Llun gyda camera o unrhyw beth yn ymwneud ar gymdeithas: Dr R. Parry, Llanberis (gweler www.sgll.co.uk)

Yn dilyn 25 mlynedd o wasanaeth fel Trysorydd i'r Gymdeithas mae Mr. Gwyndaf Jones, Bethel, yn ymddeol, ac fe gyflwynwyd anrheg bach iddo fel gwerthfawrogiad am ei wasanaeth. Bydd Mr. T. Brown, Waunfawr, yn cydied yn y gwaith o hyn ymlaen. Ymhen y flwyddyn byddaf innau wedi rhoi 40 mlynedd o wasanaeth i'r clwb, ac o reswm mae'n rhaid i minnau roi'r ffidil yn y to. Mewn gwirionedd, er mwyn cael dilyniant i'r Gymdeithas mae'n rhaid i'r criw ifanc gydiad ynddi. Wrth gwrs 'rwyf yn eithaf hen erbyn hyn, ac eisiau profi pysgota sydd wedi bod ar fy meddwl ers blynnyddoedd lawer – neu, wrth gwrs, mi fydd wedi mynd yn rhyw hwyr i fynd i unlle!

Wela i chi mis nesaf.

Huw Price Hughes

TAFLU CYSGOD

Dyma weithred sy’n denu cryn sylw ar lefel uchaf pêl-droed ar hyn o bryd sef y chwaraewr sy’n ‘taflu’ ei hun yn y blwch cosb i geisio ennill cic o’r smotyn. Mae’r bÿs yn cael ei bwyntio at rai o glybiau uchaf yr Uwch-gynghrair gan fod y ras am y bencampwriaeth a’r ‘llefydd yn Ewrop’ mor dynn eleni. Yn wir, cyhuddir rhai o’r prif ymosodwyr o fod ymysg y salaf am y weithred neu’r ‘drosedd’ hon. I gymhlethu’r sefyllfa ceir sawl sylwebydd yn defnyddio geiriau amwys fel ‘dim digon o gyffyrddiad’ neu ‘mynd i lawr rhy rwydd’. A hyn wrth gwrs wedi gweld ail-chwarae o’r digwyddiad sawl tro – nid felly y dyfarnwr/llumanwr. Gwelais argymhelliad diddorol gan y cyn ddyfarnwr Mark Cluttenburg i ddyfarnwr wylïo amdano. Mae’r chwaraewr sydd wedi dioddef trosedd yn rhoi ei freichiau lawr i arbed anaf wrth daro’r llawr. Mae’r taflwr yn rhoi ei freichiau yn yr awyr fel petai’n ymbilio.

O’r tymor nesaf bydd VAR i’w gael ym mhob gêm uwch-gynghrair, a gobeithio bydd hyn yn gwneud gwaith y dyfarnwr yn haws. Gyda llaw, yng Nghwpan y Byd olaf – gyda VAR, gwelsom leihau sylweddol yn yr arferiad o dynnu crysau ymosodwyr i rwystro rhediadau o giciau cornel. Heb VAR eleni mae’r drosedd yma wedi dychwelyd, ac anaml caiff ei gosbi. Beth wna y sêr gaiff ei ddynwared gan blant gemau bore Sadwrn wrth gwrs.

Y broblem gynhenid yw mai’r un rheolau sydd yn y gêm broffesiynol ac ar feysydd pentref yn ein cynghreiriau lleol. Diolch fyth mae tacio di-gyfaddawd yn parhau ar y lefel is – balm i rai sy’n coelio bod yr elfen gorfforol yn diflannu o’r gem.

Tipyn haws oedd hi ers stalwm. Rwyn cofio un o amddiffynwyr Pentraeth yn dweud wrtha i – “Reff, elli did dim rhoi penalti. Roedd y bêl gyno fo pan nes i gicio fo”. Cic o’r smotyn, dim cardyn coch – a gweddill y chwaraewyr a glywodd y geiriau yn rowlio chwerthin. Fel byddai dyfarnwr yn y cynghreiriau lleol yn gweiddi dros y lle – “Get on with the game!”

Nawdd i dim pel-fasged Celts Caernarfon

Mae tîm pêl-fasged dan 16 y Celts yn cychwyn y Flwyddyn Newydd gyda chit newydd sbon wedi ei noddi gan gwmni marchnatau deunydd adeiladu o Fethesda, C. L. Jones. Dywedodd hyfforddwr y tim dan 16, Sion Owen, "Mae'n wych gweld cwmni lleol yn cyfrannu i'r clwb mewn ffordd mor hael ac rydym yn ddiolchgar iawn i C.L Jones am eu cefnogaeth wych."

Ychwanegodd Mike Jones, C. L. Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr, "Mae'r Celts yn ysbrydoliaeth i'r plant a'r oedolion ifanc wrth i'r clwb weithio i wella eu gallu pêl-fasged a'u hiechyd a'u ffitrwydd yn gyffredinol. Mae C L Jones yn falch o gefnogi ymdrechion y Celts trwy nawdd ar gyfer cit i'w tîm dan 16."

Mae Celts dan 16 oed yn mwynhau tymor gwych, yn cychwyn y flwyddyn newydd fel arweinwyr Cynghrair Gogledd Cymru, ac maent yn bwriadu ymestyn eu rhediad di-guro yn 2019.

AI HWN YW’R TYMOR?

Pan fyddwch yn derbyn y rhifyn hwn byddwch yn cnoi eich ewinedd a Chymru yn herio’r Ffrancwyr ym Mharis yng ngêm gyntaf y Chwe Gwlad. Cyfres bwysig yn gorfforol a meddyliol a ni ar drothwy Cwpan y Byd draw yn Japan. Cystadleuaeth ble mae rhai yn darogan y gall gwlad o hemisffer y gogledd – Iwerddon efallai – dorri crib timau’r De a’r Teirw Duon yn benodol. Amser a ddengys. Ond beth am Gymru, a Warren Gatland wrth y llyw am y tro olaf. Mae’r ddwy gêm anoddaf – Lloegr ac Iwerddon – gartref ac am grochris gallwch wylïo y ddwy frwydr anferthol hon.

Nid yw’r sylwebyddion yn or-hyderus am obeithion Cymru oherwydd anafiadau i chwaraewyr allweddol – Faletau a Halfpenny - yn arbennig. Hefyd perfformiadau ein timau talieithol yng nghystadlaethau Ewrop. Siomedig iawn, gyda’r Iwerddon a’r Alban gyda dau dim yr un yn yr wyth olaf. Rhai yn dechrau darogan y dylsai Cymru ddilyn ein cefndryd Celtaidd a chael dim ond dau dim rhanbarthol fel bod mwy o arian ar gael i feithrin a datblygu talent. Ta-ta rhanbarth i’r Gogledd o dan y fath drefn yn amlwg.

Yr hyn sy’n galonogol yw fod Cymru ar hyn o bryd yn ddi-guro wedi naw gêm gyda buddugoliaethau dros De’r Affrig ac Awstralia yn eu mysg. Yn amlwg, pan mae Gatland a’i dim hyfforddi yn cael amser buddiol gyda’i garfan yna mae’r gallu ganddo i weu uned anodd i’w curo. Mae ei record gyda carfannau’r Llewod yn dangos hynny. Cadw’n y ffydd felly a dal i obeithio o weld Cwpan Aur Webb Ellis yn disgleirio yng Ngwlad yr Haul ar Godi, a dwylo capten o Gymro yn ei chodi i’r entrychion.



Mae bechgyn o’r fro yn aelodau rheolaidd o’r tim.

LLONGYFARCH A SIOMI

Yn haeddiannol iawn derbyniodd Dafydd Noel Williams (Charlie) Dlws Rheolwr y Mis gan y gynghrair ar gyfer Mis Tachwedd. Roedd Llanrug ar rediad da yn y gynghrair, ac yn edrych ymlaen i wynebu Llangefni ar Eithin Duon yn Nhlws C.P.D. Cymru. Wrth dderbyn y tlws clywais Dafydd Noel yn dweud “ Gobeithio na fydd hyn yn jinx ar y tîm.” Yn anffodus gwir y dywedodd. Y pnawn hwnnw collwyd gartref yn erbyn Mynydd Llandegai. Methwyd sawl cyfle gan Lanrug ar bnawn ble nad oedd fawr o awch yn eu chwarae.

Yna’r siomiant mwyaf oedd colli gartref i Langefni yn y tlws sy’n gysylltiedig a Llanrug ar eu gorau yn y tymhorau diweddar yma. Siom go iawn oedd hon. Yn amlwg, doedd dim rhwng y timau o ran gallu. Yn wir chwaraeodd Lanrug yn foddhaol iawn ar wahan i’r rhan bwysicaf –ym mlwch ymosodol y gwrthwynebwyr. Roedd y ddau gefnwyr llydan Llanrug yn effeithiol iawn a phwmpio ambell i groesiad safonol iawn i’r blwch. Yn anffodus, yn aml nid oedd neb yno i’w derbyn, neu mai gwantan iawn oedd y cystadlu. Anaml iawn y gwelwyd un o’r chwaraewyr ganol cae yn mentro i’r blwch. Roedd gor-ddibyniaeth ar sgorio o giciau rhydd. Yn fy marn i mae Llanrug yn amddiffyn rhy ddyfn ac yn gwahodd timau i ymosod. Gyda rhwystredigaeth amlwg y tîm a’r cefnogwyr niferus cynyddodd hyder y Monwysion. Yn sicr, y farn gyffredinol o’r ddwy garfan o gefnogwyr nad oedd y sgôr Lanrug 0 Llangefni 4 yn adlewyrchiad teg o’r 90 munud.

Yr elfen fwyaf siomedig oedd mal dau o gyn chwaraewyr Llanrug achosodd y prif broblemau. Roedd Alan Mark Owen yn gorfforol



gryf yn arwain llinell flaen Llangefni. Dal y bêl I fyny yn gryf yn galluogi aelodau eraill i’w gefnogi. Nid oedd neb cyfatebol gan Lanrug, gyda’r bêl yn cael ei ildio rhy hawdd.Roedd yn haeddu eu gôl o’r smotyn. Ac yna os oedd angen rhwydo ar yr amser cywir pwy well na Kevin Lloyd a ddaeth oddi ar y fainc i rwydo ei gôl arferol.

Fe lwyddodd Llanrug y Sadwrn canlynol drwy guro Bae Cinmel 2-1 yng Nghwpan Mawddach.

Llwybr Gaeafol Coed y Brenin

Ddiwrnod cyn y ras yng nghoedwig Coed y Brenin ger Dolgellau, ac yr oedd yr holl lwybrau dan eira. Ond erbyn i dros 600 o redwyr baratoi am gychwyn yr hanner marathon yn gynnar y bore dilynol roedd yr eira wedi clirio. Teithiodd rhai rhedwyr yno o bob cwr o Gymru a Lloegr, ond hogia(a merch) lleol aeth â hi, gyda Rob Samuel (Llanberis) o Glwb Rhedwyr Eryri yn ennill mewn amser o awr, 24 munud a phedair eiliad, gan dorri record y cwrs o dros funud. Yn drydydd ar ddeg yn y ras mewn amser o awr, 36 munud ac 14 eiliad roedd Dyfed Thomas (Llanrug), hefyd o Glwb Rhedwyr Eryri, ac yn drydydd yn yr adran dros 40 oed. Ac Alwyn a Maggie Oliver (Dinorwig) yn ennill yr adrannau dros 70 oed: Alwyn mewn 2 awr 36munud a 58 eiliad, gyda Maggie ddeuddeng munud o’i ôl. Llongyfarchiadau hefyd i redwyr eraill o’r fro am gwblhau’r ras mewn amgylchiadau digon anodd.

GWELLIANT

Bydd y Waunfawr a Llanberis yn hapusach gyda’u canlyniadau yn y mis diwethaf. Rhoi tipyn mwy o goliau yn y rhwyd ac ambell i bwynt yn y golofn sy’n cyfrif. Mae’n ymddangos fel tymor canol y gynghrair i’r ddau dîm unwaith eto. Bydd Llanberis yn hapus gyda

PA GOSB?

Mae clwb rygbi RGC a’u cefnogwyr wedi derbyn dwy siom yn ystod y tymor yma. Rhaid oedd gohirio dwy gêm gartref ar nos Wener yn erbyn Cross Keys a Phontypridd am na allai’r deheuwywr godi tîm ar gyfer y gemau. Hyn yn y gynghrair uchaf o ran statws i glybiau Cymru bellach. Cynghrair lled-broffesiynol y mae llawer yn tystio sydd yn rhoi mwy o adloniant na’r haen ranbarthol. Cynghrair hefyd os gwir sawl stori ble mae ambell glwb yn talu yn hael iawn. Roedd gêm Pontypridd i fod i’w darlledu’n fyw. Siom felly o fethu cyfle i roddi cyhoeddusrwydd i’r gêm yn y gogledd, a cholled ariannol buasai torf nos Wener wedi ei gynhyrchu. Mae’n ymddangos y bydd adrefnu’r gem., a’i chwarae felly ar y Sadwrn. Mantais sicr I Bontypridd, a hwythau ymysg y ceffylau blaen. A fydd cosb? Wn I ddim, ond yn sicr nid yw’n taflu golau da ar gynghrair uchaf Cymru. Gwn fod RGC wedi troi fyny ym mhob gêm nos Wener lawr yn y De.

phwynt haeddianol yn erbyn Dyffryn Nantlle sy’n cael tymor da. Yn anffodus bu digwyddiad annerbiniol yn y gêm wedi dangos cerdyn coch. Cawn weld beth fydd penderfyniad yr awdurdodau wedi derbyn adroddiad y dyfarnwr.

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug

01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

grid76

graphic design

North Wales

SIGNS

Gogledd Cymru

Uned Unit

A9

Cibyn Ind Estate

northwalessigns.com

grid76.co.uk | 07766956673

Chwaraeon

Rhediad Rory

Ar yr ail Sul yn Ionawr cynhaliwyd cyfres o rediadau o Lanberis i gofio am Rory O'Donnell, y bachgen lleol a gartrefodd ym Methel, ac a gollwyd mor ddisymwth y llynedd i afiechyd creulon. Daeth teulu, ffrindiau a chyd-redwyr iddo yng Nghlwb Rhedwyr Eryri i Lanberis i redeg rhai o'i hoff llwybrau ym mro ei febyd. Llwybr byr ar hyd gwaelodion Cwm Brwynog; llwybr canolig ym Maesgwm, a llwybr hwy ar hyd crib Moel Eilio. A rhwng y tri llwybr gwelwyd dros gant a hanner o redwyr yn troedio, sgwrsio a hel atgofion; coffa teilwng i redwr a chymeriad hynod boblogaidd.

Casglwyd dros £300 ar y diwrnod, a dymuniad y teulu oedd fod yr arian yn cael ei gyflwyno i Glwb Rhedwyr Eryri i hybu rhedeg i ieuenctid.



Llewod Llanrug



Mae tim dan 14 Llewod Llanrug yn ddiolchgar i Mr Dylan Williams siop Sglodion Tegfan, Llanrug am noddi eu cit ar gyfer tymor 2018 / 2019.

Mae Clwb Pel Droed Llewod Llanrug yn ffodus iawn o gefnogaeth Dylan ar hyd y blynyddoedd ac yn hynod o ddiolchgar am ei garedigrwydd hael.

Beicio gaeafol yn yr Alban



Ganol mis Ionawr teithiodd Owain ap Gruffudd o Lanrug i'r Alban fel rhan o dim 'Ride Guide Cymru' i gystadlu mewn ras feics mynydd eithafol yn Strathpeffer, Inverness. Roedd pedwar aelod i'r tim, a dyma'r tro cyntaf iddynt roi cynnig ar y fath ras. Yn anffodus, doedd y tywydd ddim yn ffafriol, gyda'r tymheredd yn amrywio o 1 gradd i 10 gradd islaw'r rhewbwynt! A bu'n rhaid dygymod â glaw ac eira hefyd.

Roedd y cwrs yn gylch 12 cilomedr ar dir garw a thrwy goedwigoedd, gyda dringo o 275 metr. Cychwynnai'r ras am ddeg y bore, ac yr oedd angen cwblhau cymaint o gylchoedd 12 cilomedr a phosib mewn 24 awr – oedd, roedd angen beicio drwy'r nos hefyd. Roedd y ras wedi ei rhannu i dri categori: unigolion, deuawdau a thimau o bedwar. Roedd y deuawdau a'r pedwarawdau yn cystadlu fel ras gyfnewid. Roedd dros 1,000 o feicwyr yn barod i herio'r cwrs.

Llwyddodd tim 'Ride Guide Cymru' i gwblhau tri-ar-ddeg o gylchoedd o fewn yr amser, ond roedd Owain yn ddigon parod i gyfaddef mai'r tywydd oedd yr enillydd ar y diwrnod, gyda'r nwy ar gyfer coginio wedi rhewi, a phrin ddigon o wres ganddynt i sychu eu menyg. Ond roedd wedi mwynhau'r profiad, ac y mae'r tim yn cysidro cystadlu mewn rasys tebyg eto yn y dyfodol – a gobeithio am well tywydd!